



Y Gofal Cywir

Hawliau Plant mewn gofal
preswyl yng Nghymru

Diolchiadau

Fe hoffwn i ddiolch i'r holl bobl ifanc ac oedolion a gyfrannodd at yr adroddiad hwn, yn arbennig y sefydliadau hynny a fu'n hwyluso'r trafodaethau a'r cyfweiliadau gwerthfawr a gynhaliwyd. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i Dr Dolores Davey, ymchwilydd annibynnol a arweiniodd y gwaith o lunio'r cyfweiliadau, gwneud y gwaith maes a'i ddadansoddi. Rwyf fi a'r tîm wedi gwerthfawrogi'n fawr ei harbenigedd hi wrth wneud gwaith ymchwil gyda phobl ifanc. Fy swyddog polisi, Rachel Thomas, fu'n arwain y prosiect oddi mewn i'r tîm.

Mae'r adroddiad yma ar gael mewn fformatau eraill drwy roi galwad i ni ar 01792 765600 neu drwy anfon e-bost atom ni yn post@complantcymru.org.uk

Y Gofal Cywir

Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

Comisiynydd Plant Cymru	4
<hr/>	
Cyflwyniad gan Sally Holland, y Comisiynydd Plant	6
Nodyn ar y derminoleg: Heb fod yn ddiffygiol mewn unrhyw ystyr - Not 'LACKing' in anything!	11
<hr/>	
Canfyddiadau	12
Trosolwg pobl ifanc o ofal preswyl	13
<hr/>	
Dweud eich dweud	16
Paratoi a disgwyliadau	17
Dewis Lleoliad	17
Dewisiadau iaith	18
Gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd	19
Cyfarfodydd adolygu	20
Crynodeb o'r adran dweud eich dweud	21
<hr/>	
Darpariaeth	22
Iechyd	23
Addysg	23
Symud ymlaen	25
Crynodeb o'r adran darpariaeth	27
<hr/>	
Diogelu	28
Yr Heddlu	29
Diogelwch	31
Hunan-niweidio	32
Camfanteisio'n rhywiol ar blant	34
Crynodeb o'r adran diogelu	35
<hr/>	
Perthnasoedd	36
Ymweliadau a chadw mewn cysylltiad â'r teulu	37
Perthnasoedd â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill	37
Staff mewn cartrefi plant	38
Rôl y gweithiwr allweddol	30
Crynodeb o'r adran ar berthnasoedd	41
<hr/>	
Diweddglo	42
<hr/>	



Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru am i Gymru fod yn wlad lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi, yn cael gwrandawriad ac yn cael eu cefnogi i fyw bywydau diogel a hapus. Ei gweledigaeth hi yw Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw.

Mae'r Comisiynydd yn hybu hawliau plant a phobl ifanc o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae fîm o bobl yn gweithio gyda Sally Holland, y Comisiynydd Plant, i'w helpu i wneud y canlynol:

- cefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu am hawliau plant
- gwrandao ar blant a phobl ifanc i ddysgu beth sy'n bwysig iddyn nhw
- cyngori plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdany'n nhw os byddan nhw'n teimlo eu bod nhw'n methu troi at neb arall gyda'u problemau
- dylanwadu ar y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan wneud yn siŵr eu bod nhw'n cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc
- codi llais dros blant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig – bod yn bencampwr i blant Cymru.

Mae gwaith y Comisiynydd Plant yn targedu materion hawliau plant ar 3 lefel.

1. Bod yn sylfaen ar gyfer polisiau a chyfreithiau hawliau plant – gweithio i ddylanwadu ar y rhain a’u newid fel eu bod yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi hawliau plant yn y canol.

2. Gweithredu’r polisiau a’r chyfreithiau hyn yn effeithiol ledled Cymru ac i bob grŵp o blant – monitro sut mae hawliau plant yn cael eu cyflawni, hybu arfer gorau a herio’r rhai sydd ddim yn parchu hawliau.

3. Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc – gwranddo ar blant a phobl ifanc a cheisio sicrhau newidiadau gwirioneddol yn ansawdd eu bywyd pob dydd a chyfleoedd cyfartal i gyflawni eu potensial.

Lle bo angen, mae’r Comisiynydd yn defnyddio’r pwerau a roddwyd iddi yn y ddeddfwriaeth i alw’r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus i gyfrif am sut maen nhw’n sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn eu hawliau dynol.

Gallwch ddod o hyd i gopiau o’n holl adroddiadau a’u lawrlwytho ar ein gwefan: www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau

Cyflwyniad gan Sally Holland,

y Comisiynydd Plant

ee Rydw i eisiau aros nes bod yr haul yn dod allan, gobeithio, ac yn rhoi bywyd braf i fi 99

Sylw oedd hwn a wnaed yn ystod cyfweiliad gyda Phoebe, sy'n 13 oed¹. Mae hi wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol ers ei bod hi'n 6 mis oed, ac mae wedi cael mwy na 25 o leoliadau gofal, gan gynnwys gofal maeth a lleoliadau preswyl. Mae ei sylw yn ein hatgoffa bod llawer o bobl ifanc sy'n byw mewn gofal preswyl wedi cael profiadau anodd mewn bywyd, a bod angen cefnogaeth a gofal arnyn nhw i brofi'r ansawdd bywyd mae pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn eu haeddu (yng ngeiriau Phoebe 'bywyd braf').

Mae CCUHP yn datgan bod gan bob plentyn hawl i dderbyn gofal ac amddiffyniad. Yn bwysig, mae'n cydnabod bod angen mesurau diogelu ychwanegol ar rai grwpiau o blant. Mae Erthygl 20 yn datgan bod gan blant sy'n methu derbyn gofal gan eu teulu hawl i dderbyn gofal arbennig, a bod rhaid gofalu'n iawn amdanynt.

Dros y blynyddoedd mae lleoliadau gofal preswyl, neu gartrefi plant, wedi dioddef oherwydd canfyddiad mai dyna'r 'dewis olaf' ar gyfer pobl ifanc sydd mewn gofal, y gallent fod yn beryglus, a'u bod yn eithriadol o ddrud. Yn fwy diweddar, yn Lloegr, mae wedi dod yn hysbys bod rhai pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant yn cael eu targedu gan gamdrinwyr o gangiau trefnedig, sydd wedi cadarnhau'r canfyddiad bod y cartrefi hyn yn amgylcheddau peryglus. Sefydlwyd fy swyddfa innau yn 2001 ar ôl i Ymchwiliad Waterhouse i gam-drin mewn cartrefi plant ddatgelu bod diffyg pencampwr annibynnol i ofalu am hawliau a buddiannau plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru.

Yr hyn rydyn ni'n ei glywed yn llawer llai aml yw hanesion profiadau pob dydd pobl ifanc sy'n byw mewn gofal preswyl. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc sy'n ystyried eu cartref plant yn fan lle maen nhw eisiau bod, gyda phobl sy'n gofalu amdanynt nhw. Bydd llawer ohonyn nhw'n byw bywydau llwyddiannus yn eu cymunedau lleol,

¹ Cyfieithwyd union eiriau'r cyfranogwyr i'r Gymraeg; cofnodir eu rhyw a'u hoed, ond defnyddiwyd enwau ffug i sicrhau nad oes modd eu hadnabod.

Y Gofal Cywir

Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

yn llwyddo'n addysgol, fel gwirfoddolwyr ac fel aelodau o grwpiau cymunedol. Gall eraill gael profiadau mwy cymysg, wynebu llawer o heriau yn eu bywydau pob dydd, a dymuno o bosib eu bod yn byw rywle arall.

Yn yr adroddiad hwn rwy'n cyflwyno amrywiaeth eang o brofiadau, gan gynnwys barn 34 o bobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant yng Nghymru, yn ogystal ag eiddo gofalwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol fel rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r adroddiad hwn yn digwydd ochr yn ochr â gwaith ymchwil a dadansoddi cyfredol gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chyngor Gofal Cymru, sy'n archwilio gwybodaeth am lwybrau gofal plant ac anghenion a phrofiadau'r gweithlu².

² Elliott, M., Staples, E. a Scourfield, J. 2016. Residential Care in Wales: The characteristics of children and young people placed in residential settings. Caerdydd. Cyngor Gofal Cymru.

Rwy'n gobeithio dangos bod gan gartrefi plant le pwysig o ran darparu'r **gofal cywir** i niferoedd bach o bobl ifanc yng Nghymru. Rwyf hefyd am alygu rhai heriau go iawn y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw. Yn gyntaf, mae rhai'n adrodd nad ydynt yn cael eu hawliau llawn o ran derbyn gwybodaeth, cael gwrandawriad a rhoi sylw i'w barn pan wneir penderfyniadau pwysig am eu gofal. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch ble byddan nhw'n byw a threfniadau cyswllt gyda'u teulu. Yn ail, mae diffyg paratoi gan y gwasanaethau lleol pan fydd pobl ifanc yn dod i fyw mewn cartref heb gynllunio priodol, yn aml o rywle dros y ffin yn Lloegr. Yn drydydd, mae mater troseddoli pobl ifanc am ymddygiad a fyddai'n cael ei reoli'n wahanol mewn cartref teuluol. Yn olaf, mae cyferbyniad llym rhwng lefel y gofal a'r amddiffyniad a roddir i'r bobl ifanc hyn hyd at 18 oed, a'r hyn sydd ar gael iddyn nhw fel oedolion ifanc sy'n gadael eu cartref plant.

Drwy gyflwyno eu profiadau, rwyf am atgyfnerthu trafodaeth genedlaethol ynghylch pwrpas lleoliadau gofal preswyl a'u lle yn narlun ehangach gofal awdurdodau lleol. Rwy'n cyflwyno nifer bach o argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad, ac edrychaf ymlaen at drafod y rheiny gyda Llywodraeth Cymru a'r rhai sy'n comisiynu, yn arolygu ac yn rheoleiddio cartrefi plant yng Nghymru.



Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru

METHODOLEG

Y nodau canlynol oedd i'r prosiect:

1. Galluogi plant a phobl ifanc sy'n byw mewn gofal preswyl i rannu eu profiadau o'r gofal maen nhw'n ei dderbyn; ac

2. Archwilio hawliau plant a phobl ifanc mewn gofal preswyl a safbwyntiau plant a phobl ifanc o ran sut mae eu hawliau'n cael eu gwireddu, gan gynnwys:

— **Dweud eich Dweud:** sut mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau a datblygiad y gwasanaeth yn gyffredinol;

— **Diogelu:** sut mae plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel wrth fyw mewn gofal preswyl; a

— **Darpariaeth:** digonolrwydd y ddarpariaeth mewn gofal preswyl, gan gynnwys cynllunio ar gyfer gadael gofal, mynediad at addysg a gwasanaethau iechyd, therapi a hamdden a gweithgareddau diwylliannol.

Cyfnodau'r Prosiect

Rhannwyd y prosiect yn 3 chyfnod: rhychwantu; gwaith maes gyda phobl ifanc; a mewnbwn gweithwyr proffesiynol.

Cyfnod 1

Roedd y cyfnod rhychwantu cychwynnol yn cynnwys cyfarfodydd a sgysiau gyda sefydliadau perthnasol, gan gynnwys AGGCC, Penaethiaid Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Awdurdodau Lleol, Darparwyr a Gofalwyr, gweithwyr lechyd ac Addysg proffesiynol a phobl ifanc oedd â phrofiad o ofal, er mwyn darganfod beth roedden nhw'n tybio oedd y materion pwysicaf iddyn nhw yng nghyswllt gofal preswyl. Wedyn defnyddiwyd yr wybodaeth honno i lywio patrwm cynnwys y cyfweiliadau oedd i'w defnyddio gyda'r bobl ifanc oedd yn byw mewn gofal preswyl.

Y meysydd allweddol a ddaeth i'r amlwg yng Nghyfnod 1 oedd:

— **pryder ynghylch dioddefwyr Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a pherygl dod i gysylltiad pellach â hynny mewn gofal preswyl;**

— **argaeledd gwasanaethau a chefnogaeth lechyd Meddwl, a'r cysylltiadau rhwng darparwyr iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr gofal; a**

— **lleoliadau y tu allan i'r sir; gan gynnwys diffyg cynllunio cyn gwneud y lleoliad, a'r effaith ar wasanaethau lleol.**

Cyfnod 2

Ail gyfnod y prosiect oedd y cyfnod mwyaf, ac roedd yn cynnwys cyfweiliadau â 34 o bobl ifanc.

Darparodd AGGCC restr o'r holl gartrefi plant cofrestredig yng Nghymru ym mis Awst 2015. Bu Comisiynydd Plant Cymru ar ymweliad ag 11 o gartrefi plant, sef 10% o'r cyfanswm yng Nghymru. Siaradodd â 34 o bobl ifanc, sef tua 13% o'r boblogaeth gofal preswyl yng Nghymru. Fe fuon ni'n siarad â 22 o fechgyn a 12 o ferched. Mae hyn yn cyfateb i 65%/35%, sy'n adlewyrchu'r boblogaeth gofal preswyl yn gyffredinol yng Nghymru, fel y nodwyd gan waith ymchwil diweddar Elliott³. Y person ifancaf y cwrddon ni â nhw oedd Lincoln, oedd yn 10 oed, a'r hynaf oedd Andrew, oedd yn 17 oed a 10 mis. Y grŵp oedran mwyaf a gynrychiolwyd oedd pobl ifanc 15 oed (n=12).

Paratowyd cyfweiliad lled-strwythuredig o 19 cwestiwn, oedd yn trafod cefndir y bobl ifanc a'u llwybr i ofal preswyl, y pethau roedden nhw'n eu hoffi neu ddim yn eu hoffi am ofal preswyl, a oedden nhw'n teimlo'n ddiogel ac yn sicr, a oedden nhw'n teimlo bod eu hawliau'n cael eu cynnal, a beth roedden nhw'n meddwl fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddyn nhw.

Cynhaliwyd 20 o gyfweiliadau unigol, a bu'r 14 o bobl ifanc eraill yn cymryd rhan mewn grwpiau ffocws.

Eithriwyd y canlynol o gylch gorchwyl y prosiect hwn:

- **Lleoliadau seibiant**
- **Lleoliadau yn yr ystâd ddiogel**
- **Lleoliadau mewn ysgol breswyl (trefniadau addysg yn hytrach na lleoliadau gofal cymdeithasol).**

Roedd yr adolygiad hwn ond yn cynnwys lleoliadau gofal amser llawn oedd yn cynnig lleoliadau 52 wythnos y flydyddyn.

³ Elliott, M., Staples, E. a Scourfield, J. 2016. Residential Care in Wales: The characteristics of children and young people placed in residential settings. Caerdydd. Cyngor Gofal Cymru

Cyfnod 3

Roedd trydydd cyfnod y prosiect yn cynnwys digwyddiadau yng Ngogledd a De Cymru, er mwyn dod â gweithwyr proffesiynol oedd yn gweithio yn y sector gofal preswyl a chydag ef at ei gilydd i drafod canlyniadau'r gwaith maes gyda phobl ifanc, ac i ystyried materion perthnasol ochr yn ochr â'r canfyddiadau hynny.

Cynhaliwyd pob digwyddiad am hanner diwrnod; roedd 13 o weithwyr proffesiynol yn y digwyddiad ym Mangor, ac 16 yn Abertawe, sef cyfanswm o 29 o weithwyr proffesiynol. Roedd y cynrychiolwyr yn dod o'r Heddlu, meysydd Iechyd ac Addysg, Darparwyr Eiriolaeth, Darparwyr Gofal Preswyl ac Awdurdodau Lleol.

Y materion canlynol a nodwyd i'w trafod yn y sesiynau cyfnewid tystiolaeth:

- 1. Y berthynas rhwng yr Heddlu, awdurdodau lleol a darparwyr.**
- 2. Materion diogelu.**
- 3. Ymweld â chynnal cysylltiad.**
- 4. Symud ymlaen o Ofal Preswyl.**

Crewyd recordiadau sain o'r trafodaethau, a chyfrannodd y digwyddiadau wybodaeth gyfoethog ychwanegol i'r prosiect.

Nodyn ar y derminoleg: Heb fod yn ddiffygiol mewn unrhyw ystyr - Not 'LACKing' in anything!

Roedd gan rai o'r cyfranogwyr deimladau cryf ynghylch yr enwau a roddir i bobl ifanc a'r manau lle maen nhw'n byw. Er enghraifft, dywedwyd bod 'cartref' yn well ganddyn nhw nag 'uned'. Cyfeiriodd pobl ifanc at unedau yn eu sgysiau gyda ni oherwydd mai dyna maen nhw'n cael eu galw yn y cartref lle maen nhw, felly mae'r gair wedi dod yn rhan o'u geirfa. Nododd y darparwyr eu bod wedi'u cofrestru fel Cartrefi Plant yn hytrach na Darparwyr 'Gofal Preswyl'. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu tueddiad i osgoi cyfeirio at gartrefi plant, gan fod hynny'n galw i gof y cartrefi hyn, mwy o faint, a'r problemau a oedd wedi codi yno, y clywyd llawer amdanynt. Yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio'r termau gofal preswyl a chartrefi plant, ond rydym ni'n osgoi'r gair 'uned'. Yr enghraifft gliriaf o ddefnydd gwael o derminoleg, fodd bynnag yw "LAC" yn Saesneg. Nid yw pobl ifanc yn hoffi cael eu galw'n "LAC", gan nad ydyn nhw'n ddiffygiol ("lacking") mewn unrhyw ystyr.

Canfyddiadau

Mae canfyddiadau'r prosiect yn cychwyn gyda throsolwg o farn pobl ifanc ynghylch gofal preswyl.

Mae prif gorff canfyddiadau'r adolygiad wedi'i rannu'n unol â thair 'D' CCUHP: Dweud eich Dweud, Darpariaeth a Diogelu. Mae mwyafrif y cynnwys yn troi o gwmpas barn a phrofiadau'r bobl ifanc, ond rydym hefyd yn cynnwys safbwyntiau gweithwyr proffesiynol a gofalwyr o'r sesiwn cyfnewid tystiolaeth lle mae hyn yn darparu persbectif ychwanegol.

Mae'r adran olaf yn trafod perthnasoedd – y gonglfaen bwysicaf wrth ofalu am bobl ifanc.

Trosolwg pobl ifanc o ofal preswyl

Mynegodd llawer o bobl ifanc farn bositif am fyw mewn gofal preswyl, pan ofynnwyd iddyn nhw sut brofiad oedd e a sut roedd e'n cymharu â manau lle roedden nhw wedi byw'n flaenorol.

Nododd **Jonathan**, 15,

“dyw e ddim yn gartre wrth gwrs, ond maen nhw’n wir yn ceisio gwneud e felly”.

Dyweddodd **Ben**, oedd yn 17 oed, wrthyn ni

“mae wedi bod yn wych i fod yn onest... roeddwn i mewn lleoliad maeth yn [enw'r lle] ac yna wnes i ddim bihafio'n dda iawn fanna... ac yna ces i fy symud i fan hyn a wnes i setlo lawr... gwneud fy hun yn hyderus o ran ble rwy'n byw a phethau felna’.

Bu **Sonia**, oedd yn 16 oed, yn cymharu ei phrofiadau o ofal maeth a gofal preswyl, ac roedd hi'n teimlo mai ei chartref presennol oedd fwyaf addas iddi:

“Rydw i wedi cael 10 lleoliad, tri ohonyn nhw’n rhai preswyl. Fe wnes i symud allan o bob un achos mod i’n cadw mynd ar goll ac allen nhw ddim fy nghadw i’n saff. Dydw i ddim yn hoffi gofal maeth, dydw i ddim yn hoffi’r un bobl drosodd a throsodd, mae’n mynd ar fy nerfau... rwy’n hoffi’r newid drosodd”.

Adlewyrchwyd y farn hon gan nifer o bobl ifanc, sef bod y ‘newid’ ym mhatrymau shiffitiau gweithwyr allweddol yn tynnu’r pwysau oddi arnyn nhw os oedden nhw wedi cael diwrnod gwael y diwrnod blaenorol. Hefyd yn ôl **Ruth**, sy’n 16 oed,

“y peth gorau am fyw yma yw y byddan nhw’n rhoi lle i chi os gofynnwch chi iddyn nhw”.

Roedd nifer o’r bobl ifanc hŷn wedi byw mewn hosteli’n flaenorol. Bu **Emily**, oedd yn 17 oed, yn cymharu’r profiadau ac yn dweud

“Rydw i’n hoffi byw yma, mae’n braf, mae gofal yma i chi, yn wahanol i sut oedd hi yn yr hostel... Mae’r staff fan hyn yn barod iawn i roi help i fi ac ati”.

Myfyriodd **Stella**, oedd yn 16 oed

“Nad oedd pethau cynddrwg ag mae pawb yn meddwl, dyw e’n ddim byd tebyg i Tracy Beaker”.

Roedd hi’n ddealladwy bod rhai o’r bobl ifanc yn meddwl na ddylen nhw fod mewn gofal preswyl. Roedd hefyd rai pobl ifanc hŷn oedd yn edrych ymlaen at adael gofal preswyl, gan eu bod yno ers rhai blynyddoedd, ac yn teimlo’n barod i gael rhagor o annibyniaeth. Roedd rhai’n ansicr ble bydden nhw’n mynd ar ôl ymadael.

Dyweddodd **Marc**, oedd yn 15,

“y byddai’n well dod o hyd i ddewis yn lle gofal maeth”

gan ei fod am symud ymlaen o ofal preswyl, ond yn teimlo nad oedd e’n barod i fyw’n annibynnol.

Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

Yn aml credir bob pobl ifanc yn mynd i ofal preswyl pan fydd pob opsiwn arall wedi methu o bosibl. Er na wnaethon ni holi'r bobl ifanc yn fanwl am eu cefndir, soniodd rhai pobl ifanc yn agored am nifer y gwahanol fannau lle roedden nhw wedi byw. Yn achos **Phoebe**, 13 oed, roedd mwy na 25 ohonyn nhw ers pan oedd hi'n 6 mis oed, ac roedd **Noah**, 15 oed, wedi cael 27 o leoliadau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi i'w fabwysiad fethu. Rhoddodd **Noah** hanes moel yr amgylchiadau a arweiniodd ato'n mynd i ofal preswyl:

“Roeddwn i'n 2 pan ddes i mewn i ofal... yna ces i fy mabwysiadu ac yna des i nôl i ofal... ryw 2 flynedd yn ôl, felly rydw i wedi cael 27 o leoliadau yn ystod y 2 flynedd yna... Fel fan hyn, roeddwn i'n poeni am y lle yma, ond rwy'n sylweddoli y byddai'n lle da”.

Soniodd llawer o bobl ifanc yn gadarnhaol am y gwahanol brofiadau roedden nhw wedi'u cael ers bod mewn gofal preswyl.

Dywedodd **Jamie**, oedd bellach yn 13 oed, ei fod yn ei gartref plant ers pan oedd e'n 9, a dywedodd ei fod

“fel teulu i fi achos wi di bod yma ers oesoedd”.

“Mae'n llawer gwell na bod ble roeddwn i o'r blaen, mwy o hwb i'm hyder”
Phoebe, 13.

Roedd y cymariaethau â bod mewn gofal maeth yn amrywio. Roedd nifer o'r bobl ifanc heb gael profiad da mewn gofal maeth, felly fe ddwedson nhw fod y lleoliad gofal yma'n well ganddyn nhw. Sonion nhw am gael eu disgyblu'n llym, peidio â theimlo eu bod nhw'n cael gofal, ac nad oedden nhw'n wir yn rhan o'r teulu.

“Dydw i ddim wir yn gwybod sut beth yw gofal maeth go iawn, achos fwy na thebyg wnaethon nhw ddim fy nhrin i fel mae gofalwyr maeth eraill yn trin eu plant”.
Carl, 17 oed.

Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

Teimlai **Andrew**, oedd yn 17 oed, ei fod wedi gwneud rhai newidiadau cadarnhaol i'w fywyd ers iddo fod yn byw mewn gofal preswyl am 4 blynedd, ond roedd yn cael y sefyllfa fyw yn rhwystredig oherwydd bod y cartref yn

“derbyn llawer o blant bach”

ac roedd bob amser llawer o bobl yn yr ardaloedd cymunedol, oedd yn achosi ‘trybliith’ iddo. Mewn cartref arall, roedd **David**, oedd yn 16, yn teimlo rhwystredigaeth oherwydd bod aelod o staff yn ei hebrwng ar hyd yr amser (dyma'r model rheoli risg oedd yn cael ei ddefnyddio yn y cartref dan sylw).

Dweud eich dweud

Roedd amrywiaeth eang o brofiadau ymhlith y bobl ifanc ynghylch y penderfyniad iddyn nhw ddod i leoliad gofal preswyl, ond yn fwyaf cyffredin, roedden nhw'n tueddu i deimlo nad oedd ganddyn nhw fawr o ddewis o ran y penderfyniad. Ar y cyfan, yn y cartrefi plant eu hunain, roedd pobl ifanc yn ymwneud cryn dipyn â phenderfyniadau ynghylch eu hamgylchedd pob dydd, ond yn achos rhai ohonynt roedd llawer llai o ymdeimlad o reolaeth ar ffactorau allanol, megis cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Paratoi a disgwyliadau

Roedd barn glir gan y bobl ifanc bod cael cyfle i ymweld â chartref cyn symud mewn yn brofiad cadarnhaol iawn, pan oedd hynny wedi digwydd. Soniodd Phoebe, 13 oed, am wybod sut roedd ei hystafell wely yn edrych a gallu esbonio wrth deulu a ffrindiau sut le oedd y cartref. Mewn un cyfweliad grŵp, bu'r bechgyn yn myfyrio bod ymweliadau'n help ar lefel bersonol, ond hefyd yn helpu unrhyw berson newydd i bontio'n llyfnach i'r cartref, gan eu bod eisoes wedi cwrdd â'r bobl ifanc eraill y bydden nhw'n byw gyda nhw, a bod pawb yn cael cyfle i ddysgu rhywfaint am ei gilydd. Doedd rhai o'r bobl ifanc y cwrddon ni â nhw erioed wedi clywed am ofal preswyl, ac roedd eu disgwyliadau wedi amrywio o gampws coleg tebyg i'r hyn roedden nhw wedi'i weld mewn ffilmiau, i fod yn fwy tebyg i garchar.

"Doedd gen i ddim gwybodaeth cyn dod yma, ches i ddim byd"

"Roeddwn i'n meddwl bydde fe fel bod yn y ddalfa, ond gydag en-suite..."

"Dyw e ddim byd tebyg i beth oeddwn i'n disgwyl, mewn ffordd dda"

Jonathan, 15 oed.

Dewis Lleoliad

Roedd profiadau pobl ifanc o'r penderfyniad y dylent fynd i ofal yn amrywio'n sylweddol. Er bod rhai pobl ifanc wedi gallu ymweld ymlaen llaw ar sawl achlysur a chynllunio ar gyfer cyrraedd yno, roedd eraill heb gael dewis o gwbl.

Gall fod canfyddiad bod gofal preswyl yn cael ei weld fel cosb, yn arbennig os yw lleoliadau blaenorol wedi methu neu os yw person ifanc yn cael ei symud yn bell o'r ardal gartref. Mae hyn yn ddealladwy o bersbectif person ifanc, yn enwedig os nad yw wedi cael gwybodaeth cyn symud. Roedd hyn yn rhywbeth y bu Karen yn myfyrio arno pan gwrrddon ni â hi.

Ar ôl newid lleoliad 10 gwaith, teimlai **Sonia**, oedd yn 16 oed, ei bod hi'n annheg bod rhaid iddi newid cartrefi gofal am resymau ariannol:

"Fe ddwedson nhw y byddwn i yno nes mod i'n 18, ond achos bod hi mor ddrud i roi addysg i fi a phopeth, achos bod yr ysgol ar y safle, roedd rhaid iddyn nhw symud fi nôl lawr... fe arhoson nhw nes i mi gael fy arholiadau TGAU, roeddwn i'n meddwl bod hynny'n deg, ond doeddwn i ddim yn hoffi'r ffaith bod penderfyniad am fy nyfodol wedi'i seilio ar arian, gyda mai nhw oedd wedi fy rhoi i yno yn y lle cyntaf"

Mae'n werth ystyried, os dywedir wrth bobl ifanc fod lleoliad yn rhy ddrud i'w gynnal, y gallai hynny wneud iddyn nhw deimlo'n euog am fod yno, hyd yn oed os yw asesiad wedi nodi mai dyna'r lle iawn iddyn nhw ac maen nhw'n gwneud yn dda yno.

Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

Teimlai **Karen**, 15 oed, fod y penderfyniadau am eu lleoliad allan o'u rheolaeth:

“Dydw i ddim yn rhan o benderfyniadau, maen nhw'n gwneud nhw, ac mae rhaid i mi wneud beth maen nhw'n dweud. Byddwn i'n hoffi symud nôl i ofal maeth... rydw i mewn gofal preswyl achos mod i wedi gwneud llanast o gynifer o leoliadau”.

Dywedodd **Noah**, 15 oed, ei fod heb chwarae rhan mewn penderfyniadau cyn cyrraedd ei leoliad.

“Rydw i wedi gwneud rhai penderfyniadau ers bod yma, ond cyn hynny does neb erioed wedi dweud wrtha i beth sy'n digwydd yn fy mywyd, beth sy'n mynd ymlaen... Felly, mae'n eitha anodd i fi”.

Cododd gweithwyr proffesiynol nifer o anawsterau ychwanegol yng nghyswllt plant o Loegr yn cael eu lleoli yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y ffaith nad yw'r awdurdod lleol sy'n derbyn y plentyn bob amser yn cael gwybod bod lleoliad ar waith, ac mae ymweliadau neu wybodaeth ymlaen llaw hefyd yn anghyffredin. Arweiniodd hyn at lawer o anawsterau o ran sicrhau bod modd i wasanaethau iechyd, addysg a chyfiawnder lleol ddiwallu anghenion y bobl ifanc dan sylw. Codwyd y mater hwn droeon gyda ni fel pryder gan staff gofal a gweithwyr proffesiynol o faes iechyd a'r heddlu.

Dewisiadau iaith

Roedd un plentyn 11 oed yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, ond nid oedd yn siarad Cymraeg yn y cartref presennol. Roedd wedi cael ei symud i gartref preswyl yn Lloegr cyn y lleoliad hwn, felly dyna pam nad oedd yn defnyddio Cymraeg bellach. Mewn trafodaethau gyda gweithwyr proffesiynol daeth i'r amlwg fod y plentyn wedi cael ei atal rhag siarad Cymraeg mewn cartref plant yn Lloegr pan fyddai perthnasau ar ymweliad, oherwydd bod y ffaith na allai'r goruchwyliwr cyswllt gadarnhau beth oedd yn cael ei ddweud yn golygu eu bod yn barnu bod hwn yn fater diogelu. Nid yw'n hysbys a wnaed ymdrechion i gael hyd i oruchwyliwr cyswllt oedd yn siarad Cymraeg, ond roedd yn destun pryder clywed bod dewisiadau iaith heb gael eu hystyried yn llawn wrth wneud lleoliadau.

Gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd

Teimlai pobl ifanc eu bod yn chwarae mwy o ran yn y penderfyniadau o ddydd i ddydd yn eu cartref hyd yn oed os nad oeddent yn ymwneud â'r penderfyniadau cynllunio gofal ehangach. Roedd mwyafrif y cartrefi'n cynnal cyfarfodydd tŷ lled-ffurfiol. Dywedodd rhai wrthym ni eu bod yn cynnal cyfarfodydd bob wythnos, faint bynnag o bobl ifanc oedd yn byw yno, tra bod eraill yn gadael i'r bobl ifanc benderfynu oedden nhw am gael cyfarfod. Teimlid bod cysylltu cyfarfodydd ag amserau prydau a rennid yn ddefnyddiol er mwyn dod â phawb at ei gilydd.

Roedd y gweithwyr allweddol hefyd yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, a hynny yn ystod cyfarfodydd ac ar lefel unigol. Fel y dywedodd **Ruth**, 16 oed,

“Rydw i'n gweithio gyda fy ngweithiwr allweddol i wneud penderfyniadau a'r grŵp gwrando”.

Soniodd mwyafrif y bobl ifanc am rai newidiadau cadarnhaol i reolau'r tŷ o ganlyniad i gyfarfodydd tŷ; roedd hyn yn cynnwys newid amser gwely, neu allu gwylio dewis o ffilmiau (yn arbennig ar y penwythnos), gwisgo capiau pêl fas y tu mewn (heblaw am adeg prydau bwyd), gweithredu cynlluniau gwobrwyo ac arian poced, ychwanegu at y cyfleusterau, gan gynnwys trampolinau a chwaraewyr DVD, a chyfrannu at y dewis o weithgareddau.

Bu nifer o bobl hefyd yn myfyrio ynghylch sut byddai cyfarfodydd tŷ yn helpu i glirio'r aer os oedd rhywbeth wedi digwydd, neu eu bod yn lle diogel i fynegi pryder heb i hynny droi'n ddadl, oherwydd ei fod yn digwydd mewn modd ystyrlon, adeiladol.

Roedd y bobl ifanc yn llai cadarnhaol am gyfarfodydd tŷ pan oeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu diystyru; roedden nhw'n teimlo bod dim pwynt mewn cynnal cyfarfodydd os oedden nhw'n dal i ofyn am yr un pethau oedd 'byth yn mynd i ddigwydd'. Roedd y bobl ifanc yn barod i gyfaddawdu, ac fe rhoddon nhw nifer o enghreifftiau o sut roedd hynny wedi digwydd. Dau bwynt a gododd yn gyson oedd bod y bobl ifanc yn aml yn cael gwybod bod rhywbeth yn rhy ddrud, neu y byddai asesiad risg yn rhy hir a chymhleth, a doedd y bobl ifanc ddim bob amser yn teimlo bod y rhain yn rhesymau boddhaol dros wrthod eu ceisiadau.

Roedd y bobl ifanc hefyd yn cynnal eu hasesiadau risg eu hunain o deithiau, er mwyn gallu ymweld â ffrindiau; weithiau byddai hynny'n cymryd diwrnod cyfan iddyn nhw, ond hyd yn oed wedyn roedd y prosesau a'r ffurflenni wedi'u hatal rhag mynd i weld ffrindiau. Roedd y bobl ifanc yn derbyn yr angen cyffredinol am asesiadau risg ac yn sylweddoli na allen nhw wneud pethau'n fyrbwyll neu weithgareddau peryglus iawn;

“mae rhaid i chi roi rhybudd ymlaen llaw er mwyn iddyn nhw fedru cynnal asesiad risg, sy'n ddigon teg. Na yw'r ateb yn achos rhai pethau wrth gwrs”.

Jonathan, 15.

Roedd barn ranedig ynghylch larymau neu gloen ar ddrysau ystafelloedd gwely, heb gonsensws clir nac argymhellid yn dod i'r amlwg. Dywedodd rhai pobl ifanc eu bod yn teimlo'n ddiogel o ganlyniad i'r mesurau hyn, a buon nhw'n sôn am leoliadau blaenorol lle roedd eiddo wedi cael ei golli o'u hystafell, neu lle roedden nhw wedi dod ar draws pobl ifanc eraill yn eu hystafell, rhywbeth nad oedden nhw'n ei hoffi. Roedd y bobl ifanc yn gosod gwerth

Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

mawr ar ofod personol a phreifatrwydd, ac roedd hynny'n arbennig o wir yn achos y rhai sydd yng nghwmni gweithiwr allweddol drwy'r dydd, ble bynnag maen nhw'n mynd. Fodd bynnag, roedd eraill yn gweld y larymau'n debyg i fod o dan oruchwyliaeth neu mewn llefy diogel, a doedden nhw ddim yn teimlo eu bod yn angenrheidiol nac yn gymesur. Roedd hwn yn arbennig yn fater lle roedd cymharu'n digwydd â gofal maeth. At ei gilydd roedd gofal maeth yn cael ei ddisgrifio fel sefyllfa oedd yn llai llym oherwydd nad oedd larymau ar y drws, a bod llai o gyfyngiadau o ran pethau fel defnyddio Wi-Fi neu amser gwely penodol.

Nid oedd y bobl ifanc yn gyffredinol yn anfodlon bod gan gartrefi reolau a therfynau, ac roedd llawer yn eu croesawu oherwydd eu bod wedyn yn gwybod ble roedden nhw'n sefyll. Roedd amser gwely graddedig neu gyrfiw ar sail oed hefyd yn cael eu derbyn yn gyffredinol gan y bobl ifanc, ond os nad oedden nhw'n meddwl bod y rheolau'n cael eu cymhwyso'n deg, roedd y bobl ifanc yn amlwg yn sylwi ar hynny.

Cyfarfodydd adolygu

Roedd llawer o bobl ifanc wedi bod yn rhan o'u cyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG). Cyfarfodydd amlasiantaeth rheolaidd yw'r rhain ar gyfer plant sydd yng ngofal yr awdurdod lleol, a'u bwriad yw ystyried a yw eu hanghenion yn cael eu diwallu'n llawn, ac os nad ydynt, cytuno ar gamau gweithredu er mwyn gwella'u canlyniadau yn ystod eu cyfnod mewn gofal. Roedd gan rai brofiadau cadarnhaol o'r rhain, er nad oedd hynny'n wir am bawb. Cyfeiriodd rhai at gael pobl yn siarad â nhw fel petaen nhw'n oedolion yn y cyfarfodydd hyn, ac ar y cyfan roedden nhw'n hoffi hynny, ond ar adegau roedd yr iaith

oedd yn cael ei defnyddio'n peri dryswch, ac aeth **James**, 15 oed, mor bell â'i alw'n **"gibberish"**.

Dywedodd Ryan, oedd yn 15, fod ei adolygiadau PDG wedi cael eu canslo sawl tro, a hyd yn oed pan oedden nhw i fod i gael eu cynnal, doedd neb o'r gwasanaethau cymdeithasol wedi troi i fyny. Roedd hynny'n peri siom fawr iddo, gan ei fod wedi disgwyl cyfle i drafod estyn ei drefniadau cyswllt teulu, ac roedd hynny'n cael ei ohirio dro ar ôl tro. Nododd James, oedd yn 15 oed, fod rhywbeth tebyg wedi digwydd iddo fe hefyd, a'i fod

"wedi siomi'n fawr iawn, ac yn teimlo'n rhwystredig ar yr un pryd"

Roedd Chris, oedd yn 13 oed, wedi dewis peidio â mynd i'w adolygiad PDG, ond wedyn doedd e ddim wedi cael gwybod bod ei gyswllt gyda'i chwirydd wedi newid i bob mis yn lle pob pythefnos, felly roedd e'n disgwyl eu gweld nhw yr wythnos ganlynol. Roedd wedi arfer â'r cyswllt yn cael ei drefnu

"fwy neu lai ar y funud ola"

gan fod ei chwirydd mewn lleoliadau preswyl eraill, ond roedd peidio â gwybod beth oedd yn digwydd wedi bod yn anodd iddo fe.

**Crynodeb o'r adran dweud
eich dweud**

Mae Erthygl 12 o CCUHP yn rhoi hawl i bob plentyn gael mynegi barn, teimladau a dymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arnyn nhw, a chael eu barn wedi'i hystyried a'i chymryd o ddifri. Yn yr adran hon rydyn ni wedi gweld bod pobl ifanc yn aml yn adrodd, yng nghyswllt rhai agweddau pwysig ar eu bywydau, fel ble bydden nhw'n byw a chyswllt â'u teuluoedd, eu bod wedi cael trafferth sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed. Roedd Erthygl 12 ar gael yn fwy cyffredinol yn achos penderfyniadau pob dydd o fewn y cartref.

Roedd bod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau yn cael ei werthfawrogi'n fawr, yn ogystal â bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn brydlon; mae'r dyfyniad yma'n crynhoi'r cyfan:

**"pethau bach yw'r rhain i chi, ond
dyma fy mywyd i".**

Andrew, 17.

Darpariaeth

Mae llawer o Erthyglau yn CCUHP yn ymwneud â darpariaeth. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i gael gofal arbennig os ydych chi'n byw oddi cartref, a hawliau i gael cysgod, bwyd digonol, addysg, gofal iechyd a chwarae a hamdden.

Ymddangosai fod y cartrefi y buon ni'n ymweld â nhw yn ystod yr adolygiad hwn wedi'u haddurno'n dda ac yn gartrefol, ac ar y cyfan roedd y bobl ifanc yn rhydd i ddefnyddio'r cyfleusterau.

Mae maint cartrefi wedi bod yn lleihau'n ddramatig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bu gostyngiad hefyd yng nghyfanswm nifer y lleoedd gofal preswyl sy'n cael eu darparu. Soniodd rhai pobl ifanc fod y trefniadau byw yn fwy "hectig" neu "anhrefnus" mewn cartrefi mwy o faint (mwy na 4 ystafell wely), a bod hynny'n gallu arwain at ddadleuon. Buon nhw'n myfyrio pa mor bwysig yw hi cael cyfuniad o bobl ifanc sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd mewn cartrefi mwy.

Rhai gwahaniaethau allweddol a nododd y bobl ifanc am fod mewn gofal preswyl oedd y cyfleoedd a'r gweithgareddau y gallen nhw eu cyrchu, oedd yn cael eu gweld fel ffactor cadarnhaol go iawn. Dywedodd y bobl ifanc wrthyn ni am fynd ar go-certi, i fowlio, ac ar daith i Lundain a pharciau thema, yn ogystal â theithiau rheolaidd i'r sinema, diwrnodau allan a gwylliau. Mae'r bobl ifanc yn cael eu hannog i fod yn berchnogion ar y broses hon i ryw raddau, gan gynnwys casglu gwybodaeth am weithgareddau lleol a faint bydden nhw'n ei gostio.

Mae cymhellion i ennill arian piced neu arian gwobrwyo yn boblogaidd hefyd. Mae'r bobl ifanc yn rhan o rotâu coginio, siopa bwyd ar-lein, glanhau ac ailgylchu. Roedd siopa am fwyd yn boblogaidd gan fod y bobl ifanc yn gallu dewis eu bwyd a chynllunio bwydlen yr wythnos. Dywedodd rhai pobl ifanc eu bod yn mwynhau gwneud tasgau o gwmpas y cartref gan fod hynny'n eu hatal rhag diflasu, ac ochr yn ochr â hynny mae'r bobl ifanc yn dysgu sgiliau ymarferol fydd yn amhrisiadwy iddyn nhw wrth symud ymlaen o ofal preswyl.

Mae nifer fawr o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allanol yn y gymuned, gan gynnwys clwb ieuenctid, pêl-droed, clwb drama, nofio a Geidiau. Soniodd rhai aelodau o staff am drefnu pethau cyn iddyn nhw gyrraedd neu cyn gynted â phosib wedyn, yn arbennig os oedd person ifanc eisoes wedi bod yn rhan o glwb yn y man diwethaf lle roedden nhw'n byw. Ymddengys fod y bobl ifanc yn edrych ymlaen at y gweithgareddau hyn, nid dim ond oherwydd eu bod yn mwynhau'r gweithgaredd y maen nhw wedi'i ddewis, ond hefyd oherwydd ei fod yn gyfle i gymdeithasu gyda phobl o'r tu allan i'w cartref. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig ar gyfer y rhai sy'n mynychu ysgol ar y safle ac yn treulio'u holl ddyddiau gyda'r un bobl.

Iechyd

Mae gan bob plentyn hawl i'r iechyd gorau posib, o dan Erthygl 24 o CCUHP. Roedd yn galondid felly cael gwybod bod mynediad cyffredinol y bobl ifanc y buon ni'n eu cyfweld i iechyd i'w weld yn dda. Roedd y bobl ifanc yn cael eu cofrestru'n gynnar ar ôl cyrraedd gyda Meddyg Teulu a deintydd, ond hefyd gydag optegwyr ac orthodontyddion yn ôl y galw. Adroddodd rhai fod mynediad i CAMHS yn gyflymach

nag i'r boblogaeth yn gyffredinol (hyd at ryw 6 wythnos o aros i gael apwyntiad, ond mynediad bron ar unwaith mewn achosion brys). Ni chafwyd cwynion gan y bobl ifanc ynghylch bod ag angen cael mynediad i wasanaeth a methu â gwneud hynny. Ar ben hynny, roedd rhai pobl ifanc newydd ddychwelyd o apwyntiadau iechyd neu ar eu ffordd iddynt tuag adeg ein hymweliadau. Soniodd **Jonathan**, oedd yn 15, yn falch am y ffaith ei fod wedi cael profi ei lygaid y diwrnod hwnnw, a'i fod yn gallu gweld cystal â "pheilot rhyfel".

Serch hynny, soniodd gweithwyr proffesiynol yn ein sesiynau cyfnewid tystiolaeth am y straen ar wasanaethau iechyd meddwl a chorfforol mewn rhai ardaloedd lle mae crynodiad o gartrefi plant preifat a phobl ifanc yn cyrraedd yn aml gyda llawer o anghenion iechyd, o ardaloedd byrddau iechyd eraill ac o Loegr.

Addysg

Roedd mynediad i addysg yn anghyson ymhlith y bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw. Yn ystod un ymweliad bore roedd **Emma**, 14 oed, gartref; roedd dadlau'n parhau rhwng ei hysgol flaenorol a'r gwasanaethau cymdeithasol ynghylch y dewis gorau o ran addysg iddi; ar y pryd roedd hi'n cael cynnig rhai oriau o wersi mewn neuadd gymuned leol, ond doedd hi ddim eisiau mynd yno oherwydd ei bod hi'n oer, a doedd dim pobl ifanc eraill yno, felly roedd hi'n methu cymdeithasu. O ganlyniad, doedd hi ddim yn cael mynediad i unrhyw ddarpariaeth addysg. Dywedwyd wrth y cyfwelwyr nad oedd Emma wedi cael ei gwahardd yn ffurfiol o gofrestr ei hysgol uwchradd, ond nad oedd yr ysgol yn ei hannog i fynd yno oherwydd eu bod yn pryderu am effaith ei hymddygiad ar bobl ifanc eraill. Mae hwn yn fater sydd wedi dod i sylw swyddfa'r Comisiynydd ar achlysuron blaenorol, ac nid

Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

yw wedi'i gyfyngu i bobl ifanc mewn gofal preswyl.

Doedd **Megan**, 13 oed, ddim yn yr ysgol chwaeth, gan nad oedd hynny'n cael ei ystyried yn bosib tra bod trefniadau ar gyfer ei lleoliad gofal yn cael eu cadarnhau.

“Dydw i ddim yn mynd i'r ysgol ar y foment... yn amlwg mae popeth lan yn yr awyr ar hyn o bryd, felly dydw i ddim yn mynd i'r ysgol”.

Roedd **Anthony**, 15 oed, yn byw mewn cartref oedd ag ysgol ar y safle, ond dim ond 2 awr o addysg y dydd yr oedd e'n eu cael, gan fod ei diwtor yn gadael y safle wedyn i ddsygu disgybl arall yn y gymuned. Roedd Anthony'n anfodlon ar ei ddarpariaeth addysg oherwydd ei fod yn methu dewis pryd roedd yn cychwyn. Yn wreiddiol, roedd wedi cael 2 awr yn y bore, a gweddill y diwrnod yn rhydd, ond roedd yr amser wedi cael ei newid i gychwyn am 13.30 ac fe soniodd am wastraffu'r bore yn aros i fynd i'r ysgol. Er bod 2 awr y dydd yn fwy nag oedd Anthony wedi bod yn ei fynychu yn ei gymuned leol cyn dod i ofal, doedd e ddim wedi ymgysylltu â'i ddarpariaeth addysg er ei bod ar y safle gan nad oedd yn addas ar gyfer ei anghenion.

Mewn cyferbyniad, yn achos rhai pobl ifanc roedd cael addysg ar y safle wedi cynyddu'r amser roedden nhw'n ei dreulio yn yr ysgol, gan y bydden nhw wedi cael eu hanfon adref o addysg brif ffrwd petaen nhw'n amharu ar y dosbarth. Fel y soniodd **Sienna**, 15 oed, doedd

“dim opsiwn o ran hynny yma”

o gymharu ag o'r blaen, pryd roedd hi'n dweud ei bod hi byth yn mynd i'r ysgol mewn gwirionedd.

Dyweddodd **Gemma**, 14 oed,

“rhoddodd yr aelwyd yma hyder i fi, felly rydw i'n mynd nôl i'r ysgol nawr. Roeddwn i'n arfer dadlau ac ymladd yn yr ysgol... Cyn bo hir bydda i'n mynd i'r ysgol yn amser llawn, mae addysg yn bwysig”.

Teimlai **Suzanne**, 13 oed, ei bod hi wedi gwneud cynnydd go iawn gyda'i haddysg ers bod mewn gofal preswyl oedd yn cynnwys ysgol, gan nad oedd hi wedi bod yn mynychu'r ysgol yn ei chartref blaenorol.

“Roedd fy mathemateg fel plentyn 5 oed a'm darllen yn 2 oed, ond nawr mae fy narllen fel rhywun 12 oed a'm mathemateg yn 15 oed. Rydw i mor falch mod i wedi cael y dewis yna... Does dim geiriau i ddisgrifio...”

Soniodd hi fod y

“staff addysgu'n dda iawn, ac yn deall os ydych chi'n methu sillafu, byddan nhw'n rhannu fe'n adrannau a phethau felna”.

Mae gan bob plentyn hawl i gyrchu addysg o dan Erthygl 28 o CCUHP, ac mae Erthygl 29 yn cynnwys darpariaeth sy'n nodi y dylai addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd pob plentyn yn llawn. Roedd yn gadarnhaol nodi bod hyd yn oed yr ysgolion llai, ar y safle, yn ceisio cynnig amrywiaeth o bynciau fel bod y bobl ifanc yn gallu dewis y rhai oedd o ddiddordeb iddyn nhw, ac os oedden nhw wedi bod yn astudio pwnc penodol wrth fyw yn rhywle arall, bod ymdrechion yn cael eu gwneud i barhau â hynny, er enghraifft sicrhau bod offerynnau cerdd ar gael i ymarfer neu gael hyd i diwtoriaid i gynnig pynciau penodol.

Roedd gan un o'r ysgolion oedd ar y safle gyngor ysgol gweithredol, a gwelodd y cyfwelwyr gofnodion ac agendâu ar hysbysfwrdd yn yr ysgol. Roedd **Dylan**, 16 oed, hefyd yn gweithredu fel gofalwr i'r

ysgol, felly fe fyddai'n dadgloir adeilad a'r ystafelloedd dosbarth bob dydd ac yn helpu gyda'r gwaith cynnal cyffredinol. Soniodd Dylan yn falch am ei rôl a'i gyfrifoldebau.

Roedd rhai o'r bobl ifanc hyn yn cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi gyda chyrrff trydydd sector. Soniodd y bobl ifanc yn gadarnhaol am y cyfleoedd hyn; ochr yn ochr a'r rhaglen hyfforddi, roedd tuedd bod ganddyn nhw weithiwr cefnogi oedd yn eu helpu i gyrchu'r cwrs, ond hefyd yn eu helpu gyda materion ehangach megis hawliadau budd-dal. Fodd bynnag, yn aml dim ond unwaith yr wythnos yr oedd y rhaglenni hyfforddi hyn yn cael eu cynnal, a phan ofynnwn ni i'r bobl ifanc beth arall roedden nhw'n ei wneud â'u hamser, fe ddwedson nhw eu bod yn segur lawer o'r amser.

Symud ymlaen

Gan fod bron dau draean o'r bobl ifanc y buon ni'n eu cyfweld yn 15 oed neu'n iau, doedd materion cysylltiedig â chynllunio i ymadael a phontio o ofal preswyl ddim bob amser ar eu radar. Profiadau'r gweithwyr proffesiynol, fodd bynnag, oedd bod **"pontio yn gallu bod yn drawmatig"** a bod gadael gofal yn gallu **"ystumio sefyllfa"** person ifanc; mae hyn yn adlewyrchu profiad y rhai sy'n gadael gofal yn gyffredinol, fel yr adroddwyd i'm swyddfa yn ystod ymgynghoriad **Beth Nesa' I What Next?** yn 2015⁵.

Byddai **Andrew**, ein cyfranogwr hynaf, yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed ymhen deufis, a dywedodd ei fod wedi gweld ei weithiwr cymdeithasol y diwrnod blaenorol **"am y tro cyntaf ers misoedd"**. Roedd hi yno i gynnal asesiad tai ar gyfer pan fyddai e'n

18 oed, ond doedd e ddim yn gwybod beth fyddai'r cynllun. Roedd **Andrew** wedi cael gwybod na fyddai'n gallu aros lle roedd e, ond doedd e ddim yn gwybod beth oedd yn cael ei ystyried yn lle hynny, ac roedd hynny'n ei wneud yn nerfus. Roedd wedi cael anhawster gyda chamddefnyddio sylweddau yn flaenorol, ac roedd wedi llwyddo i roi'r gorau i ddefnyddio sylweddau anterth cyfreithlon ers byw yn y lleoliad hwn, gyda help ei weithiwr allweddol. Roedd yn pryderu y byddai'n llithro'n ôl i ddefnyddio sylweddau anterth cyfreithlon, yn dibynnu ar ble byddai'n byw a phwy fyddai o'i gwmpas.

Mater arbennig oedd yn codi oedd y gall fod yn fwyfwy anodd i bobl ifanc sy'n cael eu lleoli **"y tu allan i'r sir"** gynnal cysylltiadau cefnogi ac ailgartrefu yn eu cymuned gartref ar ôl gadael gofal preswyl yn 18 oed. Roedd y gweithwyr proffesiynol o'r farn bod **"popeth yn anoddach i'w wneud pan fydd lleoliad y tu allan i'r sir"**. Serch hynny, mae 'mynd adre' yn gyffredin ymhlith y rhai sy'n gadael gofal preswyl. Canfu ymchwil ddiweddar Elliott yng Nghymru fod 181 o gyfanswm o 402 (45%) o'r rhai oedd yn gadael cartref plant yn dychwelyd adref at eu teuluoedd geni. Dywedodd gweithwyr proffesiynol, os yw person ifanc wedi mynegi dymuniad yn gyson i dychwelyd adref ar ôl gadael gofal, y dylid "gafael" yn y mater yn gynharach, fel bod modd i'r symudiad hwnnw ddigwydd gyda chefnogaeth. Nododd gweithwyr proffesiynol fod peth eironi yn y lefelau o amddiffyniad a roddir weithiau i bobl ifanc o dan 18 oed yng nghyswllt eu teulu geni, ond eu bod yn dychwelyd atynt, heb unrhyw fesurau diogelu, ar ôl cael eu pen-blwydd yn 18.

Un mater mae fy swyddfa eisoes wedi'i godi gyda Llywodraethu Cymru yw'r ffaith nad yw'r trefniadau byw ôl-18 "Pan fydda i'n Barod" yn berthnasol i bobl ifanc mewn gofal preswyl, ac roedd y gweithwyr proffesiynol yn bendant yn cytuno â'm safbwynt yn hyn o beth, gan ei fod yn anghydraddoldeb

⁵ www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Overview-Welsh-FINAL_compressed.pdf

Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

syfyaenol i'r bobl ifanc fwyaf agored i niwedd sy'n gadael gofal.

Mae rhai cartrefi'n gallu cynnig fflatiau hyfforddi neu ddarpariaeth cam i lawr i baratoi ar gyfer pontio, ac roedd ambell un y buon ni'n siarad â nhw wedi bod yn ymchwilio i sut gallen nhw ddatblygu cyfleuster oedd yn gysylltiedig â'u cartref presennol. Roedd darpariaeth o'r fath yn cael ei gweld fel ffordd gadarnhaol a diogel o helpu pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau. Fel y nodwyd yn ein gwaith maes, roedd pobl ifanc yn datblygu sgiliau byw'n annibynnol trwy gynlluniau gwobrwyo yn y rhan fwyaf o gartrefi, ac o'u cymharu â llawer o'u cyfoedion mewn gofal maeth, roedd yn debygol eu bod yn derbyn mwy o gyfrifoldeb am y tasgau hynny. Fodd bynnag, i bobl ifanc sy'n byw mewn gofal preswyl, sydd wedi arfer â chael cefnogaeth 24/7 a dulliau gweithredu therapiwtig, gall symud allan yn 18 oed deimlo fel petaen nhw'n cael eu hamddifadu o bopeth. Mae'n gymaint o gyferbyniad gorfod rheoli eu harian, eu cludiant a'u bwyd eu hunain. Disgrifiad y gweithwyr proffesiynol o hynny oedd colli'r "rhwyl ddiogelwch" gan mai ychydig iawn o gefnogaeth sy'n parhau yn aml.

Lle roedd opsiynau tai â chymorth a phrosiectau symud ymlaen fel hostelau a llety â chymorth Di Gartref ar Ynys Môn yn cael eu cynnig, roedd y rhain yn cael eu gweld fel rhywbeth buddiol iawn i bobl ifanc, gan eu bod yn cynnig gwahanol lefelau o gefnogaeth, yn dibynnu ar anghenion y person ifanc, y gwasanaethau di-fwlch, a'r cymorth i ymsefydlu o'r newydd yn y gymuned leol. Teimlai gweithwyr proffesiynol fod pobl ifanc oedd yn cyrchu'r gwasanaethau hyn yn hapusach ac yn

llai ynysig. Gall byw â chymorth gyda chefnogaeth **'ar alwad'** ddarparu dilyniant ar gyfer pobl ifanc ac mae'n eu galluogi i wneud camgymeriadau mewn amgylchedd diogel.

Roedd datblygu sgiliau cymdeithasol a'r gallu i reoli perthnasoedd yn briodol yn cael eu hystyried yr un mor bwysig â sgiliau ymarferol fel coginio neu gyllidebu; **"dyna fydd yn eich cynnal chi trwy bopeth"**.

Gall fod angen sgiliau ar bobl ifanc hefyd i 'reoli' rhyngweithio ag aelodau'r teulu, os yw'r cyswllt blaenorol wedi cael ei gyfyngu a'i oruchwylio. Mae rhai pobl ifanc yn dechrau pryderu am hyn wrth nesáu at eu pen-blwydd yn 18. Roedd mynychu clybiau allanol neu ddarpariaeth addysg fel coleg chweched dosbarth yn cael ei ystyried yn ychwanegiad cadarnhaol.

Persbectif diddorol a godwyd yn ystod un o'r sesiynau cyfnewid tystiolaeth broffesiynol oedd agweddau cyferbyniol cymdeithas at y rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr. Mae bron yn ddisgwylledig na fydd myfyrwyr yn gallu gofalu amdanynt eu hunain yn llawn, bwyta'n iach a thrafod arian yn gall bob amser, a gwelir hynny fel rhan o'r 'profiad prifysgol', ond mae mwy o stigma ynghlwm wrth y rhai sy'n gadael gofal am yr un rhesymau.

Roedd gweithwyr proffesiynol hefyd yn pryderu am bobl ifanc yn mynd i'r carchar, ac y gallai rhai hyd yn oed weld hynny fel opsiwn cadarnhaol, gan y byddai ganddyn nhw rywle diogel i fynd, ac y bydden nhw'n cael bwyd, cysgod, trefn ddyddiol ac addysg. Mynegwyd pryder hefyd am ferched yn gadael gofal preswyl oherwydd beichiogrwydd, gan fod hynny'n aml yn gallu arwain at eu baban yn mynd i ofal ac yn cael ei fabwysiadu. Mae hwn yn fater sydd wedi cael ei godi gyda'm swyddfa'n flaenorol, nid yng nghyswllt gofal preswyl yn unig, ond rhai sy'n gadael gofal yn gyffredinol. Mae'r

⁶ Mae Adran 108 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn caniatáu i bobl ifanc barhau i fyw gyda gofaluwr maeth nes eu bod yn 21 oed, neu 25 oed os ydyn nhw mewn addysg neu hyfforddiant. Yr enw ar hyn yw "Pan fydda i'n Barod", sy'n cydnabod nad yw llawer o bobl ifanc yn barod i adael eu gofaluwr maeth yn 18 oed.

Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

bobl ifanc hyn yn teimlo eu bod yn wynebu rhwystrau ychwanegol a bod rhaid iddyn nhw “brofi” y gallan nhw fod yn rhieni da er mwyn cadw eu plentyn gartre gyda nhw.

Codwyd mater trefniadau cytbwys rhwng awdurdodau cymdogol hefyd, gan y bydd rhai pobl ifanc am aros yn yr ardal lle maen nhw’n byw mewn gofal, yn hytrach na dychwelyd i’w hawdurdod lleol cartref, lle gallai eu rhwydweithiau cefnogi, eu cysylltiadau a’u gwybodaeth leol fod yn gyfyngedig. Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael ei gweld fel cyfle posib i ddianc rhag dadleuon ynghylch cyllid a darpariaeth rhwng awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth.

Mae nifer o wahanol ddulliau gweithredu wedi cael eu hystyried o ran cynnig cymorth parhaus i bobl ifanc ar ôl iddyn nhw adael gofal preswyl (boed hynny’n 18 oed neu’n gynharach). Cydnabuwyd bod perthyn a hunaniaeth yn bwysig, ac y gall person ifanc fod o dan anfantais os na all gynnal perthnasoedd ar ôl ymadael. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd i gynnal y cysylltiad roedd pobl ifanc yn gallu galw heibio’u cartref plant blaenorol i gael paned a sgwrs, dod i’r cartref i gael cinio dydd Sul, neu ffonio i gael cyngor. Mae rhai cartrefi hefyd wedi cychwyn tudalennau ‘caeedig’ ar Facebook i gadw mewn cysylltiad â’r rhai a fu’n byw yno.

Un gair a gododd yn ystod y trafodaethau oedd “dibyniaeth”. Er bod pawb am i bobl ifanc ddatblygu eu hannibyniaeth, mae’r broses honno’n gallu cymryd amser. Nododd un o’r darparwyr preifat y gallai fod yn well i bobl ifanc gadw mewn cysylltiad â’u cartref blaenorol, oherwydd bydd y gweithwyr yn eu hadnabod nhw’n dda iawn, ac **“o leia byddwn ni’n ymwybodol o unrhyw ddibyniaeth neu elfennau bregus”**.

Roedd cynllunio cynnar a pharatoi yn thema allweddol ar hyd y trafodaethau; ni ddylai asiantaethau gael eu synnu bod person ifanc yn cyrraedd 18 oed. Ystyriaeth gyffredinol oedd mai **“mater yw hyn o gael cynllun da, sydd wedi cael ei ystyried yn sensitif a’i roi ar waith yn amserol”**. Fodd bynnag, y teimlad ymhlith y gweithwyr proffesiynol a fu’n cymryd rhan yn ein digwyddiadau cyfnewid tystiolaeth oedd bod y ddarpariaeth i bobl ifanc sy’n gadael gofal preswyl yn rhy aml yn annigonol, a bod hwn yn fater y mae’n rhaid mynd i’r afael ag ef ar frys.

Crynodeb o’r adran darpariaeth

Yn gyffredinol roedd y cyfleusterau o ddydd i ddydd yn y cartrefi y buon ni’n ymweld â nhw yn dda iawn, ac roedd y bobl ifanc yn mynegi bodlonrwydd o ran yr amodau byw a’r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd yr addysg yn gymysg, gyda rhai pobl ifanc yn ymwneud ag addysg mewn ffordd gadarnhaol am y tro cyntaf ers blynyddoedd, tra bod eraill fel petaent yn rhy segur. Roedd y gweithwyr proffesiynol yn pryderu am y pwysau ar wasanaethau lleol mewn rhai ardaloedd, yn arbennig pan fyddai pobl ifanc ag anghenion lefel uchel yn cael eu lleoli o’r tu allan i’r ardal leol heb fawr ddim cynllunio ymlaen llaw. Mynegwyd pryderon yn arbennig ynghylch y diffyg tai da ac opsiynau cefnogi ar gyfer y rhai oedd yn cyrraedd 18 oed.

Diogelu

Mae camdriniaeth neu esgeuluso yn rhesymau cyffredin pam mae plant yn dechrau derbyn gofal gan awdurdod lleol. Mae Erthygl 19 o CCUHP yn datgan y dylai plant gael eu hamddiffyn rhag pob math ar drais a chamdriniaeth, ac mae Erthygl 34 yn rhoi'r hawl i amddiffyniad rhag camfanteisio rhywiol. Mae Erthygl 39 yn rhoi hawl iddyn nhw ymadfer wedi camdriniaeth ac esgeuluso a chael eu hymgorffori o'r newydd i'r gymdeithas. Mae barn gynyddol bod plant mewn perygl o ddatblygu cofnodion troseddol mewn gofal preswyl pan gânt eu cyhuddo am droseddau a fyddai fel arfer yn derbyn sylw anffurfiol mewn cartref teuluol⁷.

⁷ howardleague.org/wp-content/uploads/2016/02/Criminal-Care.pdf
www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/In%20care%20out%20of%20trouble%20summary.pdf

Yr Heddlu

Gall swyddogion yr Heddlu ymwneud â chartrefi plant lleol mewn tair ffordd. Yn gyntaf, fe ddaethon ni ar draws enghreifftiau o swyddogion heddlu yn meithrin perthynas gadarnhaol gyda phobl ifanc, er mwyn cael perthynas gyda nhw cyn i argyfwng godi. Yn ail, mae'r heddlu fel arfer yn ymwneud â'r sefyllfa os bydd pobl ifanc yn mynd ar goll. Yn drydydd, gellir galw ar yr Heddlu i roi gwybod am drosedd gan berson ifanc. Er bod y ddau gyntaf yn gadarnhaol, cafwyd adroddiadau am rai achosion o droseddoli pobl ifanc yn ddiangen.

Profiad yr holl bobl ifanc a staff y buon ni'n siarad â nhw oedd y byddai'r Heddlu'n cael eu galw petai unrhyw un yn mynd ar goll; ddim ar unwaith o reidrwydd, gan y byddai'n ddigonol weithiau i'r staff chwilio'r tiroedd neu yrru i fyny'r hewl. Soniodd pobl ifanc wrthyn ni am fynd ar goll er mwyn profi'r ffiniau, ond eu bod yn cuddio gerllaw, neu'n ailystyried ac yn dod nôl, ond os oedd rhywun ar goll mewn gwirionedd, roedden nhw'n cytuno ei bod hi'n briodol galw'r Heddlu ac roedden nhw'n deall bod cyfrifoldebau ar y cartrefi i gadw pawb yn ddiogel. Roedd y bobl ifanc hefyd yn ddiolchgar ar brydiau i'r Heddlu am eu dychwelyd adref yn ddiogel.

Dyweddodd **Kyle**, 13 oed, wrthyn ni ei fod wedi mynd ar goll gyda 3 bachgen arall, oedd wedi rhedeg i ffwrdd a chuddio rhag y staff. Fe ddywedodd e

“os byddwch chi'n torri'r amodau goruchwyliaeth ac mae'r staff yn methu â'ch gweld chi, mater o'ch diogelwch chi yw e” (bod yr Heddlu'n cael eu galw).

Soniodd am sut roedd wedi byw mewn cartref preswyl arall yn flaenorol, a bod yr Heddlu **“byth”** yn cael eu galw yno. Os oedd pobl yn difrodi eiddo,

“dyna pryd dylai'r Heddlu gael eu galw, achos byddai rhieni'n eu galw nhw bryd hynny hefyd, felly mae'n debyg”.

Nododd pobl ifanc oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig hefyd eu bod yn annhebygol o fynd ar goll, gan ei bod hi'n gwbl dywyll yn y caeau o amgylch, a doedden nhw ddim yn nabod yr ardal, felly doedd ganddyn nhw ddim syniad ble i fynd, fyddai'n eu hatal.

Amygodd y sgysiaid gyda phobl ifanc wahaniaethau ymarfer o ran pryd mae'r Heddlu'n cael eu galw a phryd dylai hynny ddigwydd. Roedd ambell un o'r bobl ifanc yn meddwl y byddai angen rhywbeth difrifol i alw'r Heddlu, ar wahân i bobl ifanc yn mynd ar goll.

“Dyw'r heddlu ddim yn dod pan fyddwn ni'n gwneud pethau, mae sancsiynau'n cael eu rhoi ar waith a chanlyniadau i'n helpu i ddysgu o'r profiad. Does dim un o'r merched yma wedi bod mewn cysylltiad â'r Heddlu... dydyn ni ddim yn galw ar yr Heddlu oni bai bod y sefyllfa'n ddirifol”
Suzanne, 13.

Dydw i ddim wedi gweld yr Heddlu'n cael eu galw eto, a byddai rhaid iddo fod yn rhywbeth eitha mawr i hynny ddigwydd”
Noah, 15.

Dyweddodd rhai pobl ifanc y byddai'r staff 'bob amser' yn galw'r Heddlu, er enghraifft yng nghyswllt dod o hyd i gyffuriau yn y cartref, faint bynnag ohonynt oedd, a beth bynnag oedd eu dosbarth, neu petai rhywbeth fel celfi neu ffenestri'n cael ei dorri yn y cartref. Bu **Stella**, 16 oed, yn beirniadu

pa mor aml roedd yr Heddlu'n cael eu galw;

“Maen nhw wedi cael eu galw oherwydd mod i wedi malu pethau... wi'n gwybod bod nhw ddim yn hoffi galw'r Heddlu i ddelio gyda phlant, felly pam gwneud e, chi'n gwbod beth wi'n feddwl... y cyfan wnes i oedd dinistrio fy stafell a diflannu am gwpl o ddyddiau”.

Wrth benderfynu a oedd angen galw'r Heddlu neu beidio, soniodd y staff gofal am gymesuredd yng nghyswllt yr hyn oedd wedi digwydd, sut bydden nhw'n ymateb i sefyllfa debyg yn eu cartref teuluol gyda'u plant eu hunain, a chymryd amser i dawelu ar ôl digwyddiad. Soniodd un gweithiwr allweddol am ei fwriad cychwynnol i droi at yr Heddlu wedi digwyddiad diweddar pan oedd bachgen wedi ymosod arno. Roedd wedi siarad â rheolwr y cartref, a awgrymodd ei fod yn ystyried y peth dros nos, ac erbyn y diwrnod canlynol roedd wedi penderfynu nad oedd am alw'r Heddlu bellach. Roedd hynny mewn gwirionedd wedi helpu'r berthynas waith rhyngddyn nhw, gan arwain at amgylchedd byw mwy sefydlog i bawb.

Rhai dulliau gweithredu oedd yn amlwg ddefnyddiol oedd ystyried a oedd cysylltu â'r Heddlu yn debygol o gael effaith, gan y byddai unrhyw ddyddiad yn y llys beth amser yn y dyfodol, ac yn rhy 'bell' o'r digwyddiad i fod o werth fel gwerau, o gymharu ag effaith uniongyrchol dulliau cyfiawnder mwy adferol i'r unigolyn ac o safbwynt sefydlogrwydd bywyd yn gyffredinol yn y cartref, ac ystyried rhagolygon y person ifanc yn y dyfodol, megis y ffaith bod euogfarnau i'w gweld mewn gwiriadau GDG.

Nododd gweithwyr proffesiynol yn ein digwyddiadau, os caiff yr Heddlu eu galw, fod rhaid iddynt weithredu mewn rhyw fodd, ac na allant anwybyddu galwad. Roedden nhw'n teimlo y gallai fod problem hyfforddi, er mwyn i'r staff ddelio gyda phethau mewn ffordd gymesur yn hytrach na chondemnio person ifanc am ddiwyddiad cymharol ddibwys. Roedd gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o asiantaethau, gan gynnwys rheolwyr cofrestredig, yn gofyn **“sut byddai rhiant cyfrifol yn gweithredu?”**. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth hefyd fod rhai gweithwyr yn credu bod rhaid iddynt alw'r Heddlu oherwydd 'polisiau' neu'r 'llywodraeth' ac mae 'diogelu eu hunain' yw'r peth pwysicaf.

Yn ogystal â'r gwahanol gategorïau o alwadau, nid yw heddluoedd Cymru a Lloegr, ac asiantaethau eraill, bob amser yn defnyddio'r un diffiniadau yng nghyswllt Pobl sydd ar Goll, camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) neu gam-drin plant yn rhywiol (CSA). Roedd y gweithwyr proffesiynol y buon ni'n siarad â nhw yn barnu bod protocolau Cymru Gyfan ar Bobl Goll a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn bwysig, a dywedodd yr Heddlu wrthyn ni eu bod wedi anfon dyfyniadau o'r protocolau hyn at awdurdodau lleol yn Lloegr sy'n lleoli plant yng Nghymru.

Dyma rai meysydd arfer da allweddol a amlygwyd yn ystod y trafodaethau:

a) Swyddogion Heddlu Lleol neu PCSOs yn ymweld yn rheolaidd ac yn cynnal cysylltiadau da â chartrefi.

Mae hyn yn golygu bod yr Heddlu'n cael eu gweld fel pobl ddiogel, yn hytrach na bygythiad. Mewn rhai ardaloedd bydd yr Heddlu'n ymweld â pherson ifanc o fewn mis cyntaf y lleoliad (mae hyn yn dibynnu ar rannu gwybodaeth yn dda adeg y lleoliad). Gwelid bod ymweld â phobl ifanc pan nad oes problem yn codi o gymorth i'r Heddlu, er

mwyn herio rhai canfyddiadau nad oes ‘dim ond trafferth’ mewn cartrefi plant. Teimlid ei bod hi’n bwysig creu cysylltiadau â mwy na llond dwrn o heddweision neu PCSOs, fodd bynnag, gan nad oes gwarant shifft pwy fydd hi pan fydd rhywbeth yn digwydd.

b) Rhannu gwybodaeth

pan fyddai hyn yn digwydd, roedd yn cael ei weld yn rhywbeth gwerthfawr iawn. Amlygyd y tasglu amlasiantaeth yng Ngogledd Cymru yn arbennig fel enghraifft gadarnhaol. Mae hyn yn galluogi staff o amrywiol asiantaethau i rannu disgwyliadau o ran rheoli risg a gweithredu ar faterion cyn iddynt droi’n argyfwng.

c) Cydlynwyr Pobl Goll

gwelid y rolau hyn fel rhai hanfodol; gellir datblygu cynllun risg ar gyfer pob unigolyn. Barnwyd bod Un Pwynt Cyswllt hefyd yn gweithio’n effeithiol.

d) Cyfiawnder Adferol

teimlid bod hyn yn ffactor cadarnhaol yn y cartrefi lle mae’n cael ei ddefnyddio. Mae’n gweithio’n effeithiol i hybu awyryglch sefydlog yn y cartref, yn lleihau’r angen am alw’r Heddlu, ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Roedd hyn yn rhywbeth roedd y bobl ifanc wedi bod yn myfyrio arno hefyd yn ystod y gwaith maes.

Diogelwch

Yn ôl mwyafrif y bobl ifanc, roedden nhw’n teimlo’n ddiogel lle roedden nhw’n byw.

“Does neb wir yn gwybod ble ydw i, mae hynny’n fy helpu i deimlo’n saff” Carl, 17.

Teimlai **Emily**, oedd yn 17 oed, fod y rheolau yn y tŷ yn helpu i’w chadw’n ddiogel.

“Mae rhaid i chi fod mewn erbyn 11 o’r gloch, ac os nad ydych chi, byddan nhw’n adrodd eich bod chi ar goll... ond maen nhw’n rheolau call, ac mae’r amser yn braf, mae’n adeg braf i fod mewn”.

Soniodd y bobl ifanc am wriadau’n digwydd cyn iddyn nhw allu ymweld â ffrindiau yn eu cartref; ar y cyfan roedden nhw’n derbyn bod hynny’n anochel. Roedd **Stella**, 16, yn teimlo bod hynny’n ei hatal rhag gweld ei ffrindiau;

“mae’n hunllef, maen nhw’n gwirio’ch holl ffrindiau, eich holl gysylltiadau, dyw e ddim yn iawn”.

Dyweddodd **Ruth**, 16, hefyd fod y staff yn awyddus i wirio gyda phwy roedd hi’n cymysgu ac addaswyd unrhyw gariadon, ond doedd hi ddim yn gweld hynny’n broblem

“Ydw, wi’n gwbod pam maen nhw eisiau gwirio fy nghariad, er mwyn fy nghadw i’n saff”.

Dyweddodd llond dwrn o’r bobl ifanc nad oedden nhw bob amser yn teimlo’n ddiogel; pan drafodwyd hynny mae’n debyg mai’r rheswm oedd ymddygiad preswylwyr eraill yn y cartref, yn hytrach na dylanwadau o’r tu allan neu bryder ynghylch y gymuned ehangach. Roedd paru lleoliadau yn cael ei ystyried yn rhywbeth pwysig iawn er mwyn creu cydbwysedd da ac amgylchedd byw hapus, disgrifiodd **Morgan**, 16, gyflwyno preswylwyr newydd fel rhywbeth oedd yn **“creu llawer o ansefydlogrwydd”** ac roedd eraill yn ei grŵp cyfweled yn cytuno. Dywedodd rhai o’r bobl ifanc hefyd fod yna adegau pan nad oedden nhw’n teimlo’n ddiogel am gyfnod byr pan fyddai larwm yn seinio, neu os oedd hi’n dywyll yn y coridor tu allan i’w stafell, ond at ei gilydd eu bod nhw’n teimlo’n ddiogel.

Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

Soniodd cyfran sylweddol o'r bobl ifanc hefyd eu bod yn teimlo'n ynysig, a chyfeirio at nifer o resymau am hynny, gan gynnwys lleoliad ac ardal wledig, cael eu gwahanu oddi wrth eu cartref a'u teulu, bod mewn ardal anghyfarwydd, a chyfyngiadau ar ryddid.

Gallai camddefnyddio sylweddau amharu ar yr holl breswylwyr, petai'r Heddlu'n cael eu galw neu petai pobl ifanc eraill yn dod i'r cartref dan ddylanwad sylweddau. Lle nodwyd bod materion camddefnydd yn bodoli, soniodd nifer o aelodau staff a phobl ifanc am **'sylweddau anterth cyfreithlon'** a chanabis fel sylweddau penodol oedd yn cael eu defnyddio'n gyson.

Soniodd nifer o'r bobl ifanc fod cael eu gosod mewn gofal preswyl a chael cefnogaeth gweithiwr allweddol da wedi'u helpu i ddod â'u camddefnyddio sylweddau i ben, a hefyd ymddygiad peryglus neu droseddol.

"Ers symud yma, rydw i wedi rhoi'r gorau i gyffuriau, yfed a'r holl bethau yna roeddwn i'n arfer gwneud, mae wedi fy newid i". Carl, 17.

Teimlai **Noah**, oedd yn 15 oed, fod y cartref mewn gwirionedd yn cadw pobl ifanc yn **"rhy ddiogel"**, ac er ei fod wedi cael ei helpu i gefnu ar gyffuriau ac alcohol, doedd e ddim yn teimlo ei fod yn cael ei baratoi i ddychwelyd i fyw yn y gymuned.

"Maen nhw'n meddwl bod diogelu'r plant yma'n mynd i'w cadw nhw'n saff, ond byddan nhw'n cael sioc wrth fynd allan i'r byd a meddwl 'nid dyma beth welais i wrth dyfu i fyny".

Un pwynt diddorol oedd yn peri pryder a godwyd yn sesiynau cyfnewid tystiolaeth y gweithwyr proffesiynol oedd pan fynegodd y gweithwyr proffesiynol bryder ynghylch gallu darparwyr gofal preswyl i fynd â pherson ifanc i lety amgen am hyd at 28 diwrnod, heb orfod gwneud cais am reoleiddio'r llety hwnnw. Er bod barn gyffredinol bod gallu darparwyr i fynd â phobl ifanc ar wyliau yn beth da (ac roedd llawer o'r cartrefi y buon ni'n siarad â nhw yn gwneud hynny), roedd pryder ynghylch **"lleoliadau 27 diwrnod"** a allai fod mewn lleoliadau anniogel neu heb eu gwirio, a'r risgiau roedd hynny'n ei achosi i'r staff a'r bobl ifanc. Dywedwyd bod rhai carafanau ar yr arfordir yn cael eu defnyddio at ddibenion rheoli pobl ifanc am gyfnod o amser, yn hytrach na dim ond ar gyfer gwyliau. Rwyf wedi gwneud AGGCC yn ymwybodol o'r pryder hwn.

Hunan-niweidio

Soniodd chwech o'r bobl ifanc yn ddigon agored yn ystod y cyfweiliadau am eu profiadau o hunan-niweidio mewn gofal preswyl. Dywedodd **Sonia**, 16 oed, ei bod yn niweidio'i hun ers pan oedd hi'n 9 oed.

"Bydda i'n gwneud e i mreichiau ac yn pwnio welydd... mae wedi gwaethygu ers i mi fynd yn hŷn... er i mi fynd trwy gyfnod o beidio â'i wneud e... ac yna dechreuais i wneud e eto ryw 2 fis yn ôl".

Teimlai rhai nad oeddent o'r farn bod yr ymateb gan staff na gweithwyr meddygol proffesiynol i achosion o hunan-niweidio yn ddigonol nac yn cefnogi gwneud newid.

Meddai **Carly**, oedd yn 15 oed

"maen nhw'n meddwl mod i'n gwneud hyn i gael sylw... Maen nhw'n galw'r heddlu allan ata i... Y cyfan mae'r

Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

heddlu'n gwneud yw mynd â fi i'r ysbyty, maen nhw'n fy rhyddhau i eto, felly beth yw pwynt mynd i'r ysbyty os nad ydyn nhw'n mynd i wneud unrhyw beth".

Yn ddiweddarach yn ei chyfweliad, dywedodd **Carly**

"Rydw i'n mynd yn grac ac yn torri fy hun, a dyw'r bobl fel staff ddim yno i fi, dydyn nhw ddim yn deall sut rydw i'n teimlo".

Disgrifiodd **Karen**, 15, hunan-niweidio fel ymateb i ddieter; a dweud

"Wi'n gwneud e ar fy mraich, ac rydw i wedi cael ofn go iawn dwy waith... Mae'r hunan-niweidio'n iawn nawr, mae'n dibynnu ydw i'n grac... tasen i'n wir grac byddwn i yn gwneud e".

Fe ddwedodd hi fod y fim yn y cartref yn ceisio'i helpu hi

"weithiau... Yr unig berson sy'n wir wedi trio fy helpu i yw [enw'r gweithiwr allweddol]".

Roedd rhai wedi cael profiad mwy cadarnhaol. Roedd **Carl** wedi dod o ofal maeth a llety â chymorth mewn ardal drefol, a hefyd wedi cael problemau gyda chamddefnyddio sylweddau. Soniodd am sut roedd bod mewn gofal preswyl wedi'i helpu i newid ei ymddygiad, a'i fod yn teimlo'n llawer mwy positif oherwydd yr ymyrraeth yma.

"Mae mwy o agwedd gadarnhaol yma, mae'n well achos dydw i ddim isie torri fy hun erbyn hyn, rydw i isie tyfu i fyny a chael tatŵ pan fydda i'n hŷn i guddio'r creithiau". Carl, 17.

Bu **Ben**, oedd yn 17 oed, hefyd yn sôn am effaith gweld rhywun arall yn hunan-niweidio yn y cartref. Roedd e wedi ceisio siarad â'r preswlydd arall i ddweud bod e ddim yn gwneud lles iddi, ond roedd hi wedi dal ati i hunan-niweidio. Dywedodd **Ben**

"roedd hi'n sleisio'i hun, ei garddynau, yr holl ffordd lan ei breichiau... Roedd hi'n sleisio top ei choesau. I fod yn onest, roedd gweld hynny'n ypsetio fi. Ar y pryd roeddwn i'n treio meddwl beth oedd wedi digwydd iddi hi".

Roedd **Noah** yn gweld hunan-niweidio fel rhywbeth 'anochel';

"Rydw i'n hunan-niweidio... Mae pawb yn gwneud e rywbryd".

Mae hunan-niweidio yn bwnc eithriadol o bersonol ac anodd i berson ifanc ei drafod; doedd hi ddim yn eglur o'n sgysiaid ai'r rhain oedd yr unig bobl ifanc yr oedd hunan-niweidio'n broblem iddyn nhw, neu ai dyma'r unig rai oedd yn gallu siarad am eu profiadau.

Nododd y gweithwyr proffesiynol fod ymateb amrywiol i hunan-niweidio a rheoli risgiau hunan-niweidio. Mae hynny'n adlewyrchu canfyddiadau'r bobl ifanc yn ystod y gwaith maes. Er bod rhai pobl ifanc wedi cael profiadau cadarnhaol ac wedi gallu gweithio drwy hyn, roedd yn fater oedd yn destun pryder, ac yn un oedd yn effeithio ar drigolion eraill mewn ffyrdd nad ydynt o bosib yn cael eu cydnabod yn ddigonol.

Camfanteisio'n rhywiol ar blant

Ar sail trafodaethau cynnar fel rhan o'r adolygiad, barnwyd bod cyfatebiaeth gref rhwng risg camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) a gofal preswyl, a bod pobl ifanc mewn cartrefi plant mewn mwy o berygl o ddioddef hynny.

Nid oedd ymwybyddiaeth o gamfanteisio rhywiol neu fod mewn sefyllfa fregus ymhlith aelodau o'r gymuned yn gyffredinol yn rhywbeth a ddaeth i'r amlwg yn y sgysiau gyda'r bobl ifanc. Efallai bod nifer o resymau am hyn, gan gynnwys y ffaith nad oedd pobl ifanc yn gwbl ymwybodol o'r risgiau roedden nhw'n eu hwynebu cyn dod i ofal, peidio â chytuno â'r asesiad risg, neu efallai'n syml eu bod nhw ddim am drafod hynny gyda gweithiwr proffesiynol arall.

Mae dyletswydd benodol o dan Erthygl 34 o CCUHP i amddiffyn plant rhag pob math o gam-drin a chamfanteisio rhywiol. Gall fod yn anodd sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau pan gaiff plant o awdurdodau yn Lloegr eu lleoli yng Nghymru (ac fel arall), ond bydd Cynllun Gweithredu newydd Cenedlaethol Cymru ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn golygu bod modd casglu data'n systematig i ddarparu adroddiadau cywir a chyson ynghylch amlygrwydd CSE ledled Cymru. Mae'r cam hwn i'w groesawu, a byddaf i'n monitro'r datblygiadau hyn yn ofalus.

Roedd y gweithwyr proffesiynol y buon ni'n siarad â nhw yn gweld defnydd diogel o dechnoleg fel rhywbeth y dylai pobl ifanc gael addysg yn ei gylch. Mae hyn yn rhywbeth sy'n aml yn cael ei adrodd i fy swyddfa yng nghyswllt pob person ifanc, ond bydd yn arbennig o berthnasol i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol a chael eu paratoi at ymddygiad o'r fath. Gall mynediad at gyswllt ar-lein fod yn anodd ei fonitro; roedd rhai cartrefi yr aethon ni iddyn nhw yn cyfyngu'r mynediad Wi-Fi i ardaloedd cymunedol yn unig, a doedd dim caniatâd i'r bobl ifanc gael ffonau symudol. Roedd peth cydnabyddiaeth ei bod hi'n afresymol disgwyl na fydd gan bobl ifanc gysylltiadau ar gyfryngau cymdeithasol, gan y gallen nhw ddefnyddio ffôn rhywun arall os nad oes ganddyn nhw eu ffôn eu hunain neu fynediad i'r rhyngrwyd. Mae'n bwysig, felly, helpu pobl ifanc i feithrin gwydnwch a dysgu sut mae cael perthnasoedd diogel. Mae dysgu sut mae gwerthuso a deall risg yn rhan o ddatblygiad a gwneud penderfyniadau.

Yng Ngogledd Cymru sylwyd yn aml fod awdurdodau lleol o Loegr, yn arbennig ardal Llundain, yn meddwl bod Wrecsam yn 'ardal wledig' ac yn chwilio am leoliadau yno i gadw'r plant allan o fywyd trefol. Mae canfyddiad hefyd fod lleoliadau yng Ngogledd Cymru yn cael eu defnyddio'n ffordd i 'symud' pobl ifanc o seyllfaoedd peryglus, gan gynnwys camfanteisio rhywiol. Roedd y gweithwyr proffesiynol yn cytuno nad yw hyn yn cydnabod natur y risg, gan gynnwys cysylltiadau ar-lein a grwpiau o bobl sydd â chysylltiadau ar draws y wlad. Mae hefyd yn rhoi'r person ifanc sy'n cael ei symud o'r ardal gartref dan anfantais mewn 'ymateb' i'r risg sy'n cael ei wynebu. Gall hyn fod yn anodd i'r person ifanc ei ddeall, yn enwedig os nad ydyn nhw'n sylweddoli beth yw'r risg neu os nad ydyn nhw am dderbyn y lefelau risg a aseswyd. Ar ben hynny, barnwyd bod lleoli unigolion gyda'i gilydd, os oedd ganddyn nhw faterion risg uchel tebyg fel camfanteisio rhywiol, yn ychwanegu at y ffactorau risg.

Y prif thema oedd yn codi'n gyson yn ystod y trafodaethau ynghylch diogelu oedd diffyg rhannu gwybodaeth pan wneir lleoliad y tu allan i'r sir. Y teimlad oedd bod pob asiantaeth 'dan anfantais' ar unwaith os nad yw'r rheoliadau'n cael eu dilyn, ac mai'r cyswllt cyntaf byddan nhw'n ei gael gyda pherson ifanc fydd ar ôl i rywbeth ddigwydd. Mae ôl-traed amrywiol asiantaethau megis yr Heddlu, lechyd ac Addysg yng Nghymru hefyd yn golygu bod rhannu gwybodaeth yn anoddach, ond ni ddylent atal hynny rhag digwydd yn wyneb pwysigrwydd amlwg gwneud hynny.

Crynodeb o'r adran diogelu

Fe wnaethon ni nodi rhai datblygiadau cadarnhaol o ran y berthynas rhwng swyddogion yr Heddlu a chartrefi plant unigol. Ym marn y darparwyr gofal preswyl roedd y ffaith bod gan yr Heddlu gydlynedd personau coll yn brofiad cadarnhaol. Fe gawson ni adroddiadau gan bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys yr Heddlu, yn sôn am anghysondebau o ran pryd mae'r Heddlu'n cael eu galw a'r math o ddigwyddiadau sy'n arwain at gyhuddiadau ffurfiol. Adroddodd mwyafrif y bobl ifanc eu bod yn teimlo'n ddiogel, er nad oedd ambell un yn teimlo'n ddiogel o amgylch rhai pobl ifanc eraill yn eu cartref. Adroddodd y gweithwyr proffesiynol ei bod hi'n fwy anodd cadw pobl ifanc yn ddiogel pan fydden nhw'n cyrraedd o ardal arall heb i fawr ddim gwybodaeth gael ei rhannu gydag asiantaethau lleol ynghylch yr amddiffyniad y gallai fod ei angen arnyd nhw. Bu nifer o bobl ifanc yn rhannu profiadau o hunan-niweidio, ac roedden nhw a'r staff yn adrodd nad yw hynny bob amser yn cael ymateb cyson.

Perthnasoedd

Bydd llawer o bobl ifanc sydd mewn gofal preswyl wedi cael profiadau gwael o ran eu perthynas gyda theulu, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Bydd rhai wedi cael eu gwahanu mewn modd trawmatig oddi wrth eu prif ofalwyr, a bydd rhai wedi dioddef profedigaeth. Mae eu perthynas â phobl eraill felly'n agwedd hanfodol ar y gofal sydd ei angen ar bobl ifanc. Efallai bydd angen iddyn nhw ddysgu sut mae ymddiried mewn pobl eraill, a sut mae rheoli ffiniau gyda'r rhai a allai gael effaith negyddol arnyn nhw.

Ymweliadau a chadw mewn cysylltiad â'r teulu

Mae cyswllt â'r teulu yn bwysig i bobl ifanc ac roedd y gweithwyr proffesiynol yn cytuno y dylid parhau i adolygu'r gallu i gynnal cyswllt ystyrion â'u teulu. Roedd y gweithwyr proffesiynol yn cyfeirio at y ffaith bod rhieni o bosib heb fedru diwallu anghenion gofal plentyn ifanc, ond y gallen nhw o bosib gynnig rhyw fath o rôl gefnogi pan fyddai person ifanc yn gadael gofal, yn 16 oed neu'n hŷn. Soniodd y gweithwyr proffesiynol y gall fod yn anodd cynnal perthnasoedd heb gefnogaeth unwaith bydd y person ifanc yn 18 os yw'r cyswllt â rhieni wedi bod yn gyfyngedig a than oruchwyliaeth. Cyfeiriodd y gweithwyr proffesiynol droeon at gynnwys aelodau o'r teulu tra bod pobl ifanc mewn gofal, a'u hannog i weithio'n rhagweithiol gyda gwasanaethau; byddai hynny'n sicrhau mwy o ffocws ar y canlyniadau tymor hwy i berson ifanc, yn arbennig os byddan nhw'n dychwelyd adref yn 18 oed.

Mae cludiant cyhoeddus anghyson mewn ardaloedd gwledig a'r pellter o'r cartref yn gallu golygu ei bod hi'n anodd i deuluoedd gadw mewn cysylltiad. Gwelwyd Skype a Facetime⁸ hefyd fel ffyrdd cadarnhaol o hybu cyswllt lle roedd hynny'n briodol; gall dawelu meddwl aelodau o'r teulu sy'n byw'n bell i ffwrdd, ac mae pobl ifanc wedi gallu dangos eu hamgylchedd byw i'r teulu hyd yn oed os na fedran nhw ddod i'w weld drostynt eu hunain. Nododd rhai gweithwyr proffesiynol hefyd y gall cyswllt â'r teulu amharu ar y profiad o fyw mewn gofal, gan ei fod yn gallu tanseilio'r lleoliad, a gall ymddygiad ddirywio.

Roedd cyswllt â brodyr a chwiorydd yn cael ei ystyried yn bwysig, ond yn aml yn cael ei ddiystyru. Y farn oedd bod angen cynllunio'r cyswllt a'i wneud yn ystyrion, yn hytrach na bod yn rhywbeth sy'n digwydd er ei fwyn ei hun yn unig.

Perthnasoedd â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill

Roedd profiadau amrywiol o'r berthynas â gweithwyr cymdeithasol, gyda rhai pobl ifanc yn adrodd am berthnasoedd da, ac eraill fel petaen nhw braidd yn nabod eu gweithiwr cymdeithasol.

Soniodd mwyafrif y bobl ifanc am weld eu gweithiwr cymdeithasol yn rheolaidd, a'u bod fel arfer yn gallu cysylltu â nhw'n weddol hawdd. Dywedodd rhai fod cyflawni newid yn cymryd amser hir, a dywedodd **Noah** nad yw wir yn siarad â'i weithiwr cymdeithasol,

“dyw hi ddim yn gwneud yr ymdrech byddwn i'n disgwyl iddi wneud”.

Roedd **William** newydd gael ei ben-blwydd yn 16 pan gwrddon ni ag e, ac roedd yn aros i weithiwr cymdeithasol newydd gael ei ddyrannu. Doedd e ddim yn siŵr ai'r rheswm am hynny oedd oherwydd ei fod yn symud i'r ffin 16+, neu bod e wedi digwydd fel mae'r pethau yma, o bosib oherwydd bod staff wedi symud. Roedd e hefyd yn disgwyl am ganlyniad chwilio am leoliad maeth, i symud ymlaen o ofal preswyl, ond roedd hynny'n cymryd peth amser, a doedd e ddim wir yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd na phryd. Dyma oedd ei agwedd:

“Rydw i'n cymryd un dydd ar y tro. Alla i ddim gwneud cynlluniau'n hawdd, achos mae rhaid i fi aros i gael fy mharu, a dwy ddim yn gwybod pryd bydd hynny'n digwydd”. William, 16.

⁸ Dau ddull cyfathrebu fideo, drwy ddefnyddio ffôn symudol neu ddyfais electronig gyfrifiadurol.

Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

Byddai **Marc**, oedd yn 15, yn cael ei ben-blwydd yn 16 ymhen ychydig fisoedd, roedd yn gwybod y byddai'n trosglwyddo i dîm 16+, ac roedd yn teimlo bod ei weithiwr cymdeithasol presennol wedi peidio ag ymgysylltu ag e oherwydd hynny. Fe soniodd pa mor **“wych”** roedd hi wedi bod hyd at hynny, ac y byddai hi'n ceisio sicrhau unrhyw beth roedd e'n gofyn amdano iddo, a hi oedd ei weithiwr cymdeithasol ers pan oedd e'n 8 oed.

Dywedodd staff cartrefi oedd yng ngofal yr awdurdod lleol eu bod nhw'n tueddu i adnabod y gweithwyr cymdeithasol a'r gweithwyr cefnogi'n dda, gan fod y lleoliadau'n tueddu i ddod o'u hawdurdodau eu hun neu awdurdodau lleol cymdogol. Roedden nhw hefyd yn gallu cysylltu â gweithwyr cymdeithasol trwy restrau e-bost mewnol, ac fe sonion nhw fod hynny'n fuddiol, yn arbennig pan fyddai angen gwneud penderfyniadau cymharol fyr rybudd.

Ychydig iawn o gartrefi oedd â gwybodaeth am MEIC neu wasanaethau eiriolaeth⁹ ar eu hysbysfwrdd. Roedd gan fwyafrif y cartrefi hysbysfyrddau gyda rotâu wythnosol, manylion diwrnodau agored mewn colegau

a gwybodaeth leol. Er mai ychydig iawn oedd yn cynnwys manylion gwasanaethau eiriolaeth, pan godwyd hynny yn ystod cyfweiliadau, roedd y bobl ifanc yn amlwg yn gwybod sut a phryd gallen nhw gael mynediad at eiriolydd. **Sienna** oedd yr unig un ddywedodd wrthyn ni fod ganddi ymwelydd annibynnol¹⁰ (yr un person â'i heiriolydd).

Roedd pobl ifanc yn ymwybodol o'u Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO)¹¹ a'r rôl y dylai'r person yma ei chyflawni. Fe sonion nhw'n gadarnhaol am eu trafodaethau gyda'r IROs, sut roedden nhw'n esbonio pethau ac yn symud materion ymlaen ar eu rhan, hyd yn oed os nad oedden nhw bob amser yn cael beth roedden nhw eisiau o adolygiadau.

Roedd gweithwyr proffesiynol o'r farn ei bod hi'n bwysig peidio â chynnal cyfarfodydd proffesiynol yn y cartref, oherwydd mai'r **“cartref yw'r cartref”**. Nododd gweithwyr proffesiynol hefyd y gall nifer yr ymwelwyr â phobl ifanc sydd mewn gofal ymddangos yn eithafol; **“Nid sw̄ yw cartref”**.

Staff mewn cartrefi plant

Roedd mwyafrif y bobl ifanc yn teimlo bod o leiaf un person yn y cartref y gallen nhw siarad â nhw petai ganddyn nhw bryderon neu rywbeth yn eu poeni. Fe sonion nhw fod dilyniant dull gweithredu gwahanol staff yn helpu hyn; dywedodd rhai pobl ifanc y byddai'r ymateb yn amrywio yn ôl wrth bwy byddech chi'n dweud. Serch hynny, dywedodd **Suzanne**, oedd yn 13 oed,

“maen nhw i gyd â gofal amdanoch chi... gallwch chi drystio'r bobl yma, os byddwch chi eisiau dweud cyfrinach wrthyn nhw, gallwch chi ddiwynnu arny'n nhw”.

⁹ Mae eiriolydd yn helpu person ifanc i gyflwyno barn mewn cyfarfodydd neu yng nghyswllt penderfyniadau am eu cynllun gofal. Gwasanaeth ffôn yw MEIC sy'n gallu cyngori pobl ifanc a'u cyfeirio at wasanaethau addas i'w helpu, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth.

¹⁰ Ymwelydd annibynnol yw rhywun sy'n cael ei benodi gan yr awdurdod lleol, ond nad yw'n cael ei gyflogi ganddyn nhw, i 'ofalu' am blentyn sy'n cael anhawster cadw mewn cysylltiad â'r teulu pan fydd yn byw allan o'r ardal gartref. Mae'r rôl hon yn cael ei hadolygu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

¹¹ Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cadeirio cyfarfodydd rheolaidd i edrych ar gynlluniau gofal plant sy'n derbyn gofal, ac mae gofyn eu bod nhw'n herio gweithwyr proffesiynol os nad yw'r cynlluniau'n symud ymlaen yn ôl y disgwyl, neu os nad yw'r canlyniadau ar gyfer plentyn penodol yn cael eu cyflawni.

Hawliau Plant mewn gofal preswyl yng Nghymru

Roedd **Ben**, 17 oed, yn gadarnhaol iawn am y staff yn ei gartref, ac yn dweud

“maen nhw’n rhoi cyfle arall i chi lanhau’r dudalen rydych chi eisoes wedi cychwyn arni a gwneud pethau gwell”.

Roedd **Lincoln**, 10 oed, hefyd yn teimlo bod y staff **“â llawer o ofal amdanon ni”** ac fe ddwedodd ei fod e’n hoffi’r cartref a’r staff.

“mater o beth sydd yn y galon yw e, mae rhai pobl yn gwneud e i gael arian, mae rhai pobl yn gwneud e oherwydd eu calon... mae [enw’r gweithiwr] yn gofalu am bawb yn ei ffordd ei hun”... “mae e fel Tad”. Carl, 17.

Roedd y berthynas â staff yn bwysig, yn arbennig lle nad oedd cyswllt â’r teulu. Roedd **Karen**, 15 oed, yn teimlo bod ei theulu wedi’i gwrthod a dyw hi ddim yn eu gweld o gwbl. Ond roedd hi’n beirniadu rhai o’r staff am beidio â rhoi sylw digonol i’r bobl ifanc.

“Os bydda i’n dweud wrth aelod o staff neu beth bynnag dewch i wyllo ffilm, maen nhw’n eistedd yno ar eu ffonau, heb wneud dim byd gyda ni... dydw i ddim yn meddwl bod hynny’n deg... rydw i wedi dweud hynny wrthyn nhw, ac maen nhw’n dweud “Fy ffôn i yw e, wi’n gallu mynd arno fe”.

Dyweddodd y bobl ifanc y bydden nhw’n gofyn i breswylwyr eraill os oedd ganddyn nhw gwestiynau, a bod hynny’n osgoi gofyn i’r staff drwy’r amser. Ar ben hynny, soniodd nifer o bobl ifanc hŷn am geisio siarad ag eraill yn y cartref petaen nhw’n sylwi eu bod nhw’n bryderus neu wedi ypsetio, ac roedd hynny’n digwydd yn arbennig yn y cartrefi mwy.

Roedd y bobl ifanc hefyd yn gwerthfawrogi gweithwyr allweddol oedd yn rhannu gwybodaeth gyda nhw am eu profiadau eu hunain.

“rydych chi’n teimlo eu bod nhw’n gwybod beth maen nhw’n ei wneud a sut mae delio gydag unrhyw sefyllfa, felly hyd yn oed os yw e’n newydd i chi ac rydych chi’n meddwl ei fod yn rhywbeth unigryw, byddan nhw’n gwybod beth i’w wneud, neu fel arall, pwy ddylech chi holi. Mae gwybod rhai o’u sgiliau a’u profiadau bywyd yn golygu ei bod hi’n haws trystio nhw, ac yn golygu eich bod chi’n gallu dechrau creu perthynas”. Jonathan, 15.

Barn debyg oedd gan **Megan**, 13 oed;

“Mae’r staff yma’n gyfarwydd â phobl fel ni, yn fwy nag mewn lleoliadau eraill... Dyw rhai pobl ddim yn gwybod sut i ddelio da chi”.

Roedd hi’n hyderus y byddai’r staff yn gofalu amdani, ac yn dweud

“rydych chi’n cael sicrwydd mawr gan bawb, ac yn gwybod eich bod chi yn y dwylo gorau posib”.

Roedd dilyniant y staff yn cael effaith fawr ar y bobl ifanc. Mewn un ymweliad grŵp roedd pennaeth yr ysgol ar y safle wedi ymadael yn ddiweddar ac roedden nhw’n aros i un newydd gael ei benodi. Roedd y bobl ifanc yn rhan o’r broses gyfnewid ac asesu ar gyfer pennaeth newydd, ond roedden nhw’n teimlo’n ansefydlog heb aelod o staff yn y swydd. Fel arfer, bydden nhw wedi dweud bod yr ysgol yn cael 8 neu 9 allan o 10, ond ar hyn o bryd dim ond 5 allan o 10 bydden nhw’n ei roi iddi oherwydd yr amharu ar y sefyllfa. Meddai **David**, oedd yn 16 oed,

“mae’n teimlo fel eu bod nhw’n gadael oherwydd ni. Maen nhw’n dweud mai dewis gyrfa yw e, ond rydw i wedi gweld sawl aelod o staff yn mynd, sy’n fy ngwneud i’n anesmwyth”.

Teimlai ambell berson ifanc fod y staff weithiau’n gorymateb i bethau bach -

“maen nhw’n gorymateb i bethau bach iawn, mae’n rhwystredig iawn... i bethau rydych chi’n dweud wrth eich ffrindiau... Mae angen iddyn nhw adael i rai pethau fynd”. William, 16.

“peidiwch â gadael i’ch problemau a’ch straen chi effeithio ar y plant”. Andrew, 17.

Roedden nhw’n teimlo bod hyn yn golygu ei bod hi’n anodd cael sefyllfa sefydlog yn y cartref, a doedden nhw ddim yn meddwl bod hynny’n adlewyrchu beth fyddai’n digwydd mewn cartref teuluol.

Ar y llaw arall, roedd **Gemma**, 14 oed, yn disgrifio ei gweithwyr allweddol fel “parod iawn i faddau”; roedd hi wedi rhegi ar un ohonyn nhw’n ddiweddar, ond wedi sylweddoli ei bod hi ar fai ac wedi ymddiheuro, a chafodd y mater ei anghofio’n fuan. Roedd Gemma’n teimlo y dylai fod gan staff sgiliau gwrandao da yn bendant.

Rôl y gweithiwr allweddol

Roedd gweithwyr allweddol sy’n rhoi gofal ac yn dangos eu gofal yn thema gref oedd yn codi’n gyson gan lawer o’r bobl ifanc. Roedd un person ifanc yn arbennig yn frwd iawn am y system gweithwyr allweddol, ac yn meddwl dylai fod gan bawb weithiwr allweddol, p’un a oedden nhw mewn gofal neu beidio.

“tase gweithiwr allweddol di bod gen i yn y gorfennol, byddai wedi fy stopio rhag symud mlaen, mae’n dy helpu di i esbonio dy deimladau” Phoebe, 13.

Roedd y bobl ifanc yn hoffi bod eu gweithwyr allweddol yn rhannu rhai o’u hoff a chas bethau gan fod hynny’n golygu bod ganddyn nhw bethau i drafod ac yn gwneud gweithgareddau’n fwy pleserus. Soniodd un person ifanc hefyd am gymryd amser i ddyrannu gweithiwr allweddol arbennig er mwyn sicrhau paru da; roedd hynny’n bwysig er mwyn i’r person ifanc a’r gweithiwr allweddol gael lleisio barn.

Roedd cefnogaeth gweithwyr allweddol yn codi fel thema gyson ar hyd y cyfweiliadau, nid dim ond yng nghyswllt beth fyddai'n gwneud gwahaniaeth iddyn nhw. Roedd pobl ifanc oedd wedi profi anawsterau, boed hynny ym mynd addysg neu o ran camddefnyddio sylweddau neu hunan-niweidio, yn dweud bod y gweithwyr allweddol a lynodd wrthyn nhw, heb eu siomi, a'u hanogodd nhw i newid eu bywydau, neu oedd yn deall eu profiadau, ac yn eu gwthio i ymdrechu am rywbeth gwell, yn ffactor hollbwysig i gyflawni'r newidiadau hynny. Roedden nhw'n teimlo bod gweithwyr allweddol yn unigryw yn hyn o beth o'u cymharu ag unrhyw weithwyr eraill roedden nhw'n ymwybodol ohonynt, gan fod ganddyn nhw amser a chyfle i weithio trwy rywbeth gyda'i gilydd.

“Mae [enw'r gweithiwr allweddol] yn haeddu gwobr, mae wedi glynu gyda fi... pan oeddwn i'n mynd trwy'r broses ddiddyfnu (withdrawal) roedd wrth fy ochr, ac wedi aros gyda fi pan doedd eraill ddim eisiau gwybod”.

Andrew, 17.

Gweithwyr allweddol yw'r bobl sy'n nabod y bobl ifanc orau, ond roedd rhwystredigaeth ymhlith y rhai buon ni'n siarad â nhw eu bod nhw'n aml ddim yn cael eu gweld fel awdurdod mewn cyfarfodydd strategaeth neu amlasiantaeth.

Crynodeb o'r adran ar berthnasoedd

I'r bobl ifanc y siaradon ni â nhw, roedd y staff yn eu cartrefi plant ymhlith y pwysicaf iddyn nhw, ac adroddwyd am lawer o brofiadau cadarnhaol o ran agwedd ofalgar a deallwriaeth a pherthynas gadarnhaol gyda gweithwyr allweddol. I bobl ifanc sydd wedi wynebu llawer o newid, gall trosiant staff achosi llawer o anesmwythyd. Roedd eu perthynas â'r teulu weithiau'n anodd ei chynnal, yn enwedig pan oedd y bobl ifanc yn byw ymhell o'u cartref ac mewn ardaloedd gwledig. Mae llawer o blant yn dychwelyd adref o ofal preswyl, felly mae cynnal y berthynas honno, a dysgu ei rheoli os yw hi'n un anodd, yn hanfodol. Mae'r berthynas â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yn gymysg, gyda rhai profiadau cadarnhaol, ond hefyd beth rhwystredigaeth ynghylch peidio â chlywed gan weithwyr cymdeithasol am benderfyniadau pwysig mewn modd amserol. Roedd yr holl bobl ifanc y sonion ni wrthyn nhw am eiriolaeth yn gwybod sut mae cysylltu ag eiriolydd, oedd yn ganfyddiad cadarnhaol.

Diwedd glo

Mae'r sgysiau a gafwyd yn ystod yr adolygiad hwn wedi darparu gwybodaeth bwysig a safbwyntiau ynghylch hawliau pobl ifanc sy'n byw mewn gofal preswyl yng Nghymru. Gall gofal preswyl fod yn lle cadarnhaol i blant a phobl ifanc, ac mae hynny'n digwydd. Roedd yn dda clywed am rai agweddau cadarnhaol iawn ar ofal preswyl gan bobl ifanc ac eraill. Soniodd sawl un am sut roedd eu cartref plant yn eu helpu i setlo lawr, i ymgysylltu ag addysg neu hyfforddiant, ac i gadw allan o drwbl. Cafwyd rhai adroddiadau cadarnhaol iawn ynghylch ansawdd bywyd pob dydd a pherthynas dda gyda'r staff. Wedi pryderon lawer dros y blynyddoedd ynghylch mynediad i eiriolaeth annibynnol, roedd yn dda clywed gan y bobl ifanc eu bod yn gallu siarad ag eiriolwr os byddai angen.

Serch hynny, codwyd nifer o faterion a all fod â goblygiadau difrifol i'r grŵp bregus hwn o bobl ifanc os na fyddant yn derbyn sylw fel blaenoriaeth. Bydda i'n crynhoi'r rhain nesaf, ac yn cyflwyno argymhelliad ar gyfer pob un ohonynt. Gwneir yr argymhellion hyn gan ymarfer pwerau adolygu swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Argymhelliad 1

Mae rhai pobl ifanc yn adrodd nad ydynt yn cael digon o wybodaeth am benderfyniadau sy'n cael eu gwneud am eu gofal a'u dyfodol. Nid ydynt bob amser yn gwybod llawer am y cartref plant cyn dod i fyw yno. Barn yw hon a rennir gan rai o'r staff gofal.

Yn unol ag Erthyglau 12 ac 13 o CCUHP ac egwyddorion mwy o lais a rheolaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rwy'n argymhell bod gweithwyr cymdeithasol, eu rheolwyr, swyddogion adolygu annibynnol a staff cartrefi plant yn mynd ati'n weithredol i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau ynghylch y gofal a'r gefnogaeth a gânt, yn ogystal ag wrth ddatblygu sut mae'r gwasanaethau'n gweithredu. Rwyf hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru neu WLGA yn dod â chanllawiau arfer da at ei gilydd er mwyn hybu'r amcan hwn.

Argymhelliad 2

Mae pryderon nad yw cynllunio'n digwydd ymlaen llaw pan leolir plant mewn cartrefi plant y tu allan i'w hardal leol, ac nad oes gwybodaeth am eu hanghenion yn cael ei darparu i asiantaethau fel yr Heddlu a gofal iechyd, gan gynnwys gofal iechyd meddwl. Adroddir bod hyn yn bryder arbennig pan fydd pobl ifanc yn dod o ardaloedd rhai awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae Côd Ymarfer Rhan 6 o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod cyfrifoldeb clir ar yr awdurdod lleoli sy'n creu'r lleoliad i gynnal cyfarfodydd cynllunio ymlaen llaw gydag ardal yr awdurdod lleol fydd yn derbyn, gan gynnwys cynrychiolwyr addysg a iechyd, a rhoi gwybod i'r bwrdd iechyd yn yr ardal dderbyn, yn ogystal â Chydlynnydd Addysg PDG yr ardal dderbyn, pan wneir lleoliad. Dylid nodi nad oedd y Ddeddf mewn grym pan gyflawnwyd mwyafrif y gwaith maes, ond carwn atgoffa pob awdurdod lleol yng Nghymru ynghylch eu dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf. Mae datblygu llwybr hysbysu am iechyd i Gymru Gyfan yng nghyswllt lleoliadau y tu allan i'r ardal yn gam i'w groesawu tuag at rannu mwy o wybodaeth, a hynny'n gynt. Mae'r dyletswyddau hysbysu yng Nghymru yn mynd ymhellach na'r rhai yn y Rheoliadau cyfatebol yn Lloegr, felly ar sail y negeseuon cryf sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiad hwn, rwy'n cefnogi'n llawn argymhelliad 4.4 yn adroddiad yr Arglwydd Laming, 'In Care, Out of Trouble', sef bod rhaid newid canllawiau statudol Lloegr i ymgorffori gofynion Côt Ymarfer Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Rwyf hefyd wedi mynegi pryder wrth Gomisiynydd Plant Lloegr ynghylch llesiant plant sy'n cael eu lleoli o Loegr heb fawr ddim cynllunio ymlaen llaw ar gyfer y gefnogaeth mae arnyn nhw ei hangen.

Rwy'n argymhell bod AGGCC yn ystyried cynnwys, yn ei fframwaith arolygu ar gyfer cartrefi plant, asesiad i weld a yw darparwyr yn derbyn pobl ifanc i'w gofal cyn iddynt dderbyn cefnogaeth ddigonol ac i asiantaethau lleol gael gwybod amdanynt.

Argymhelliad 3

Ymddengys bod rhai cartrefi gofal yn fwy tebygol nag eraill o alw'r Heddlu pan fydd y plant yn difrodi eiddo neu'n dreisgar. Mae rhai wedi datblygu perthynas gref gyda'r Heddlu lleol, ac mae'r Heddlu'n gallu cefnogi'r penderfyniadau a wneir a meithrin perthnasoedd rhagweithiol gyda phobl ifanc. Rwy'n argymhell bod AGGCC, darparwyr, comisiynwyr a'r Heddlu yn ystyried y ffordd orau o ddiogelu plant ac atal troseddoli diangen, gan lunio dull gweithredu cytunedig trwy ddatblygu rheoliadau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a diwygio'r Fframwaith Arolygu ar gyfer cartrefi plant yng Nghymru. Yn arbennig, bydd hyfforddiant ar ddulliau gweithredu cyson, monitro'r ymwneud â'r Heddlu a chymryd camau dilynol yn achos materion sy'n codi droeon yn berthnasol.

Argymhelliad 4

Mynegodd llawer o weithwyr proffesiynol bryderon cryf ynghylch yr opsiynau tai a chymorth sydd ar gael i bobl ifanc ar ôl cyrraedd 18 oed. Nid oedd un dyn ifanc 17 oed a 10 mis yn gwybod ble byddai e'n byw ymhen deufis. Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru'n edrych ar estyn y cynllun Pan fydda i'n Barod i bob plentyn sydd mewn gofal, nid dim ond y rhai mewn lleoliadau gofal maeth, er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bawb i gefnogaeth barhaus.

Rwyf hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried estyn cefnogaeth i bawb sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. Mae'n bwysig ymdrin ag ansawdd ac ystod yr opsiynau llety ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc eraill rhwng 16 a 25 oed sy'n agored i niwed. Ar ben hynny, dylai fod gan awdurdodau lleol ddulliau gweithredu cyson ar gyfer diwallu anghenion llety a chefnogaeth rhai sy'n gadael gofal.

Mae angen bod gennym ni ddealltwriaeth glir o'r cyfraniad y gall Gofal Preswyl ei wneud a'r hyn rydyn ni'n gobeithio ei gyflawni i bobl ifanc yng Nghymru. Mae eglurder pwrpas gofal preswyl yn allweddol. Mae angen sicrhau diffiniad clir a dealltwriaeth i awdurdodau lleol, pobl ifanc a'u teuluoedd o ran yr hyn sy'n cael ei gynnis, boed hynny'n gartref diogel, yn ddarpariaeth therapiwtig, neu'n addysg, ac mae rhaid bod ansawdd gofal rhagorol ym mhob cartref.

Rydw i'n edrych ymlaen at drafod yr adroddiad hwn gyda phawb sy'n gyfrifol am ddarparu, comisiynu a rheoleiddio cartrefi plant a chyda Llywodraeth Cymru. Fy ngweledigaeth i yw Cymru a fydd yn dod yn rhywle lle mae gan bob plentyn gyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw. Fel arfer, mae cyfleoedd pobl ifanc mewn gofal preswyl wedi bod yn anghyfartal iawn yn eu bywydau hyd yma, ac mae angen i ni i gyd weithio gyda'n gilydd i roi cyfle mwy cyfartal iddyn nhw ar gyfer dyfodol gwell.



0808 801 1000 / 80800*
post@complantcymru.org.uk

* Tecstiwch ni am ddim (gan ddechrau eich neges â COM)

@complantcymru
facebook.com/childcomwales
www.complantcymru.org.uk

Ysgrifennwch:

Comisiynydd Plant Cymru
Rhadbost RRGL XLYC BHGC
Abertawe SA7 9FS

